Cyngor
sir ddinbych
denbighshire
County Council

# Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol

# 2021 - 2022



# Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2021 - 2022

## Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Cyflwyniad | 2 |
| 2. | Crynodeb y cyfarwyddwr o berfformiad | 3 |
| 3. | Sut mae pobl yn ein helpu i siapio ein gwasanaethau | 5 |
| 4. | Hyrwyddo a gwella lles y bobl yr ydym yn eu cefnogi | 13 |
| a) | Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu canlyniadau lles personol y mae pobl yn dymuno eu cyflawni | 13 |
| b) | Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hybu iechyd corfforol a meddyliol a lles emosiynol | 19 |
| c) | Amddiffyn a diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed | 24 |
| d) | Annog a helpu pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas | 30 |
| e) | Helpu pobl i ddatblygu'n ddiogel a chynnal perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol iach | 38 |
| f) | Gweithio gyda phobl a'u helpu i wella eu lles economaidd, i gael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n bodloni eu hanghenion | 42 |
| 5. | Sut rydym yn cyflawni ein gwaith | 43 |
| a) | Ein gweithlu a sut rydym yn eu cefnogi yn eu rolau proffesiynol | 43 |
| b) | Ein hadnoddau ariannol a sut rydym yn cynllunio ar gyfer y dyfodol | 48 |
| c) | Ein gwaith partneriaeth, arweinyddiaeth wleidyddol a chorfforaethol, llywodraethu ac atebolrwydd | 49 |
| Rhagor o wybodaeth a dogfennau allweddol | | 53 |
| Rhestr termau | | 53 |

# Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2021 - 2022

## 1. Cyflwyniad

Mae Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Ddinbych yn dangos sut rydym wedi hyrwyddo lles ac wedi bodloni'r safonau lles dan ofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

Ers dechrau'r pandemig Covid-19, mae'r galw am ofal cymdeithasol yn ogystal â nifer y dinasyddion sydd angen cymorth wedi cynyddu, ac mae cymhlethdod anghenion wedi dwysau. Mae llawer mwy o'n dinasyddion wedi profi arwahanrwydd cymdeithasol ac unigedd sylweddol dros y 2 flynedd diwethaf, sydd wedi cael effaith andwyol ar eu hiechyd. Mae hyn yn ychwanegu at y problemau digynsail mewn perthynas â recriwtio a chadw staff yn y sector gofal.

Lle bynnag y bo modd, rydym wedi parhau gyda'n nodau a'n huchelgeisiau i arloesi, gwella, trawsnewid a moderneiddio ein gwasanaethau. Fodd bynnag, ychydig iawn o'r gwaith hwn a gwblhawyd gan y bu'n rhaid i ni ddefnyddio ein hadnoddau i sicrhau ein bod yn cyflawni ein dyletswyddau a'n cyfrifoldebau statudol o ran Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant ac Oedolion.

Bydd yr adroddiad hwn yn gwerthuso perfformiad Cyngor Sir Ddinbych mewn perthynas â darparu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol dros y flwyddyn ddiwethaf. Byddwn yn egluro sut y llwyddom i gyflawni 6 safon ansawdd Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chanlyniadau lles:

1. Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu canlyniadau lles personol y mae pobl yn dymuno eu cyflawni
2. Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hybu iechyd corfforol a meddyliol a lles emosiynol
3. Gweithio gyda phobl a'u helpu i wella eu lles economaidd, i gael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n bodloni eu hanghenion
4. Helpu pobl i ddatblygu'n ddiogel a chynnal perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol iach
5. Annog a helpu pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas
6. Amddiffyn a diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed

# Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2021 - 2022

## 2. Crynodeb y cyfarwyddwr o berfformiad

Dros y 12 mis diwethaf, mae'r heriau yr ydym wedi'u hwynebu yn sgil y pandemig Covid-19 wedi parhau. Mae ein timau Gwasanaethau Cymdeithasol a'r gweithlu gofal cymdeithasol ehangach ar draws Sir Ddinbych wedi cael eu hymestyn i'r eithaf er mwyn cynnal darpariaeth ein gwasanaethau statudol, yn ogystal ag adeiladu ar y dulliau arloesol a oedd eu hangen arnom i'n helpu i fodloni anghenion ein dinasyddion mwyaf diamddiffyn.

Yn ogystal â thonau o achosion Covid-19, rydym hefyd wedi ymdrin â phroblemau heriol iawn mewn perthynas â recriwtio a chadw staff ym mhob maes gofal cymdeithasol, yn fewnol ac ar draws ein rhwydwaith darparwyr annibynnol. Mae hyn yn golygu y bu'n rhaid i ni adleoli nifer o'n gwasanaethau i fodloni ein rhwymedigaethau statudol a sicrhau ein bod yn cadw oedolion a phlant yn ddiogel.

Mae'r galw am ofal cartref yn parhau i gynyddu ac mae Sir Ddinbych, yn yr un modd â'r mwyafrif o awdurdodau lleol eraill ar draws Cymru, yn wynebu'r un heriau o ran gallu bodloni'r gofynion hynny. Drwy weithio gyda Chatalyddion Cymunedol, rydym yn datblygu microfentrau i ddarparu gofal o fewn y gymuned leol. Mae'r diddordeb yn cynyddu a byddwn yn parhau i gefnogi hyn er mwyn mynd i'r afael â'r prinder o ran darpariaeth gofal a chefnogaeth, yn arbennig yn ne Sir Ddinbych.

Rydym wedi parhau i adeiladu ar yr arloesedd a'r arfer orau a weithredwyd yn ystod 2020 - 2021. Er enghraifft, yn yr adran Gofal Cymdeithasol i Oedolion, rydym wedi cyflwyno gweithgareddau gwirfoddoli a oedd yn hanfodol ar gyfer mynd i'r afael ag unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol yn ystod y cyfnodau clo Covid-19, roedd hyn yn elfen allweddol o'r gefnogaeth i'r dinasyddion hynny ar ymyl gofal ffurfiol.

O fewn ein Gwasanaethau Plant, sefydlwyd y Gwasanaeth Teuluoedd Integredig Lleol, gan gynnig cefnogaeth gynnar wedi'i thargedu i deuluoedd sy'n cael trafferth â rheoli ymddygiad heriol ac anarferol.

Ddechrau 2022, agorwyd Awel y Dyffryn, ein cyfleuster Tai Gofal Ychwanegol newydd, a ddatblygwyd mewn partneriaeth gyda Grŵp Cynefin, i ddarparu 66 uned llety ar gyfer pobl hŷn a 4 uned annibynnol i oedolion gydag anableddau cymhleth, yn ogystal â byngalo i'w rannu rhwng 4 unigolyn.

# Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2021 - 2022

Dros y 12 mis nesaf, byddwn yn canolbwyntio ar ystod o weithgarwch i fodloni’r galw cynyddol am wasanaethau a chymhlethdod anghenion ein dinasyddion mwyaf diamddiffyn.

Bydd hyn yn cynnwys dull Corfforaethol i fynd i’r afael â’r problemau mewn perthynas â recriwtio a chadw staff, yn ogystal â chydweithio’n rhanbarthol gyda’n partneriaid awdurdod lleol ac yn genedlaethol gyda Llywodraeth Cymru.

Byddwn yn parhau i weithio gyda’r sector annibynnol i sicrhau bod staff gofal cymdeithasol yn derbyn y Cyflog Byw Gwirioneddol fel lleiafswm a’n bod yn parhau i wella proffil y sector gofal cymdeithasol.

Gan gydnabod y gwaith rhagorol mae gofalwyr di-dâl yn ei wneud i ddarparu gofal a chefnogaeth, byddwn yn parhau i ddatblygu ein darpariaeth i ofalwyr ac yn ymgysylltu gyda gofalwyr di-dâl ar draws Sir Ddinbych.

Er ein bod yn siomedig ein bod wedi wynebu heriau sylweddol o ran dechrau’r gwaith adeiladu ar Fwthyn y Ddol, mae’r Tîm Amlddisgyblaeth bellach ar waith a byddant yn parhau i fwrw ymlaen gyda’r prosiect mewn partneriaeth gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a BIPBC.

Byddwn yn parhau i adeiladu ar y gwaith ymyrraeth gynnar ar draws gwasanaethau plant ac oedolion i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i atal unigolion a theuluoedd rhag bod angen defnyddio gwasanaethau statudol lle bynnag y bo modd.

Yn yr un modd ag arfer, er mai fy Adroddiad Blynyddol i yw hwn, mae’n rhaid i mi gydnabod gwaith caled, gofal ac ymrwymiad ein staff sy’n parhau i fynd y tu hwnt i’r disgwyl bob dydd - mae wir yn bleser cael bod yn rhan o Dîm Gofal Cymdeithasol Sir Ddinbych.



**Nicola Stubbins**

**Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau a Chyfarwyddwr Statudol ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol**

# Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2021 - 2022

## 3. Sut mae pobl yn ein helpu i siapio ein gwasanaethau

Wrth i'r cyfleoedd i ymgysylltu gyda'n dinasyddion ddechrau dod ar gael yn ystod 2021-2022, roedd yn rhaid i ni barhau i ddefnyddio dulliau arloesol er mwyn sicrhau, lle bynnag y bo modd, ein bod yn cynnwys dinasyddion yn y broses o siapio a chyd-gynhyrchu ein gwasanaethau, gan gynnal arferion diogel a dilyn canllawiau Covid-19.

### Gwasanaethau Plant

**Ap Mind of My Own -** Mae Gwasanaethau Plant yn parhau i sefydlu Mind of y Own er mwyn rhoi llais i blant a phobl ifanc o fewn eu cynlluniau / asesiadau cymorth. Y ffocws ar gyfer y flwyddyn nesaf yw cynyddu'r defnydd o'r ap hwn ymhlith plant a phobl ifanc sydd ar y gofrestr amddiffyn plant, gan gydnabod bod yr ap yn cael ei ddefnyddio'n ehangach gyda Phlant Sy'n Derbyn Gofal ac o fewn gwasanaethau Ymyrraeth Gynnar.

**Ymgynghori gyda Phlant sy'n Derbyn Gofal -** Mae Gwasanaethau Plant, ar y cyd â phlant a phobl ifanc sydd wedi profi gofal, wedi dechrau adolygiad o'r iaith a ddefnyddir gan weithwyr proffesiynol yn ystod trafodaethau, ar lafar neu'n ysgrifenedig, ynghylch bywydau ac amgylchiadau plant a phobl ifanc sydd wedi profi gofal. Mae hyn mewn ymateb i geisiadau gan Voices from Care, Comisiynwyr Ifanc a Bwrdd Cyfiawnder Teuluol Pobl Ifanc sydd wedi amlygu'r iaith a ddefnyddir gan weithwyr proffesiynol a'i heffaith ar blant a phobl ifanc. Mae Sir Ddinbych wedi ymrwymo i weithio gyda'n plant a phobl ifanc sydd wedi profi gofal i addasu'r iaith a ddefnyddir ac adlewyrchu eu dymuniadau lle bynnag y bo modd. Mae rhai o'r enghreifftiau a roddwyd yn cynnwys newid y termau 'cyswllt' am 'amser teuluol', 'lleoliad' i 'gartref' a LAC (Looked After Children) i CLA (Children Looked After).



# Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2021 - 2022

**Arolygon Dweud eich Dweud -** Er mwyn casglu barn plant, pobl ifanc a rhieni ar yr effaith mae Gwasanaethau Addysg a Phlant wedi'i chael ar eu bywydau a pha mor ddefnyddiol yw / oedd y gwasanaeth a dderbyniwyd, mae ystod o arolygon Dweud eich Dweud wedi cael eu llunio. Bydd y canlyniadau'n helpu i wella'r gwasanaeth yn ogystal â chydnabod beth sydd wedi gweithio'n dda. Ynghyd â'r arolygon, mae canllawiau'n egluro'r dull a'r broses ar gyfer bob arolwg, a chaiff bob un o'r ffurflenni eu harbed ar ffeil y plentyn.

**Diwedd Cyfnod Lleoliadau -** Caiff y rhain eu cwblhau gan weithwyr cymdeithasol, gofalwyr maeth, rhieni a phlant / pobl ifanc ar ddiwedd cyfnod lleoliad (beth bynnag yw'r rheswm dros ddod â lleoliad i ben). Mae'r adroddiadau hyn yn darparu gwybodaeth bwysig am brofiadau defnyddwyr a staff o'r lleoliad a'r gwasanaethau y maent wedi'u derbyn, ac felly'n darparu ffynhonnell wybodaeth bwysig ar gyfer nodi gwelliannau ansawdd posibl.

**Dogfennau Ymgynghoriadau Plant sy'n Derbyn Gofal -** Er mwyn paratoi ar gyfer Adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal ar gyfer plant a phobl ifanc, lluniwyd ffurflenni ymgynghori i'w cwblhau ganddynt, yn ogystal â rhieni / gofalwyr. Maent yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac yn cyd-fynd â Deddfau Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd a Lles a Chanlyniadau Cenedlaethol.

**Ffurflenni Cyn Cynadleddau Amddiffyn Plant -** Er mwyn nodi barn plant a phobl ifanc mewn Cynadleddau Amddiffyn Plant, gofynnir i staff annog y bobl ifanc maent yn gweithio â hwy i lenwi ffurflenni ymgynghori ymlaen llaw, yn arbennig os nad oes arnynt eisiau mynychu'r gynhadledd. Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Mae casglu barn pobl ifanc yn galluogi aelodau'r gynhadledd i glywed safbwynt yr unigolyn ifanc. Caiff llais yr unigolyn ei golli o bryd i'w gilydd mewn trafodaethau am bryderon.

**Ffurflenni Adborth Cynadleddau Amddiffyn Plant -** Er mwyn casglu barn mynychwyr ar broses y Gynhadledd Amddiffyn Plant, gofynnir i rieni / gofalwyr a phobl ifanc lenwi ffurflen adborth. Cyn Covid-19, roedd y ffurflenni ar gael ar ddiwrnod y cynadleddau neu gellid cael mynediad atynt drwy ddolen i'r adran Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd ar wefan Cyngor Sir Ddinbych neu'r dudalen Ymgynghori. Fodd bynnag, mae e-bost a dolen electronig i'r arolygon bellach yn cael eu hanfon at weithwyr proffesiynol a rheini.

# Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2021 - 2022

**Ymgysylltu â phlant / pobl ifanc i siapio contractau i'r dyfodol**

Fel rhan o broses werthuso manyleb y gwasanaeth ar gyfer y 2 gontract canlynol, gofynnwyd i blant a phobl ifanc am eu barn:

- Gwasanaeth Gadael Gofal (darparwr newydd, Barnardo's)
- Gwasanaeth Eiriolaeth Rhanbarthol (darparwr presennol: TGP - Tros Gynnal Plant)

## Oedolion mewn perygl

Rydym yn sicrhau bod y dinasyddion hynny a bennir fel Oedolion mewn Perygl o gamdriniaeth neu esgeulustod wrth wraidd y datrysiad a bod ein dull yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Byddwn yn cyflawni hyn drwy gasglu eu barn a'r canlyniadau sy'n bwysig iddyn nhw, gan gysylltu â nhw'n uniongyrchol neu drwy eu heiriolwr lle bo hynny'n briodol.

## Gofalwyr

Casglwyd barn gofalwyr di-dâl drwy Arolwg Oedolion sy'n Gofalu ar borth ymgysylltu Sgwrs y Sir. Defnyddir yr arolwg i ddylanwadu ar ein dull strategol a'n penderfyniadau comisiynu. Wrth fonitro effeithlonrwydd ac ansawdd ein contractau gofal cymdeithasol, rydym yn cymryd saf-wynt y gofalwr i ystyriaeth ac mae darparwyr a gomisiynir yn cwblhau eu harolygon eu hunain.

Mae trefniadau cyfathrebu a rhannu gwybodaeth sefydledig rhwng Grŵp Strategaeth Gofalwyr Sir Ddinbych a'r sefydliadau aelodau hynny sy'n cynnal eu fforymau / grwpiau cymunedol eu hunain ar gyfer teuluoedd a gofalwyr. Mae hyn yn cynnwys, Gofal Croesffyrdd yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr, Taith Ni, Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru (NEWCIS), Grŵp Gofalwyr Prestatyn a chefnogaeth i deuluoedd a gofalwyr Adferiad (Hafal). Cefnogir gofalwyr di-dâl i leisio eu barn a dylanwadu ar ddatblygiadau a gwelliannau gwasanaeth drwy lwybrau cyfathrebu ffurfiol gan gynnwys y grŵp strategaeth lleol drwy Grŵp Gweithredol Gofalwyr Gogledd Cymru a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Gan weithio ochr yn ochr â'r Grŵp Tasg a Gorffen Ymgysylltu a drefnir gan y tîm Trawsnewid, mae Grant Thornton wedi llunio a darparu ystod o weithgareddau ymgysylltu gan gynnwys sesiwn i drafod cefnogaeth well i ofalwyr di-dâl. Defnyddiwyd yr adborth gan ofalwyr lleol i lywio eu hadroddiad. Cofnodwyd gweithgareddau ymgysylltu â dinasyddion rhwng mis Mehefin a mis Awst 2021 gan Grant Thornton fel rhan o'r gwaith Dadansoddi System Gyfan ehangach ar gyfer partneriaid Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghonwy a Sir Ddinbych.

# Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2021 - 2022

Pwrpas yr adroddiad yw darparu crynodeb o bob gweithgarwch ymgysylltu a nodi'r mewnwelediadau a'r pwyntiau allweddol.

Mae Cyngor Sir Ddinbych hefyd yn gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru i wella dulliau mesur a chasglu data.

## Pobl hŷn

Mae pobl hŷn a'u teuluoedd / ffrindiau wedi cyfrannu at arferion ymgysylltu sy'n ein helpu i siapio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, yn arbennig yn ardaloedd Dinbych a Chorwen. O ganlyniad i ddau ymarfer ymgysylltu yn ardal Corwen, rydym wedi datblygu ein cynlluniau ar gyfer darpariaeth tai i bobl hŷn i gynnwys mynediad at ardaloedd awyr agored a mynediad cyfleus / llefydd parcio ar gyfer sgwteri symudedd. Rydym hefyd yn gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) i sicrhau mynediad rhwydd at ofal iechyd i ddinasyddion yn y dyfodol.

Mae'r grŵp Heneiddio'n Dda yn Sir Ddinbych yn cyfarfod ac yn cynnig diweddariadau'n rheolaidd mewn perthynas â'r cynllun gweithredu i helpu i greu Sir Ddinbych Cyfeillgar i Oedran a bodloni'r nodau sydd wedi'u nodi gan y Comisiynydd Pobl Hŷn.

Mae pobl sy'n byw â dementia wedi ein helpu i ddatblygu cynlluniau, gwerthuso tendrau a recriwtio staff i helpu i gefnogi pobl eraill sy'n byw â dementia.

Mae eiriolwyr wedi galluogi dinasyddion i leisio eu barn lle bo angen ac mae gwasanaethau eirioli'n cael eu datblygu ymhellach mewn ymateb i'r adborth.




Mae pobl sy'n byw â nam ar y synhwyrau wedi ein helpu i lunio gwasanaeth cydweithredol sy'n bodloni anghenion pobl â gwahanol fathau o namau ar y synhwyrau. Daeth y gwasanaeth i rym ym mis Hydref 2021 ac mae eisoes wedi helpu nifer fawr o ddinasyddion.

# Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2021 - 2022

## Pobl gydag anableddau dysgu

Mae’r tîm wedi gwneud cais am grant trydydd sector Cronfa Gofal Integredig ochr yn ochr ag Outside Lives a Flintshire Do It. Y pwrpas oedd sefydlu grwpiau ar y cyd â dinasyddion. Mae’r prosiect wedi arwain at weithgareddau megis datblygu teithiau cerdded lles. Bydd Grŵp Hunaneirioli Sir Ddinbych hefyd yn cyd-gynhyrchu cynhadledd gyda chymorth Outside Lives a Do- It.

Mae Grŵp Hunaneirioli Sir Ddinbych wedi cael nifer o sesiynau i drafod sut y gallwn gydweithio’n well i fodloni canlyniadau a meysydd diddordeb pobl ag anableddau dysgu yn Sir Ddinbych. Trafodwyd cludiant yn un o gyfarfodydd y Grŵp Hunaneirioli, a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr gwasanaethau a staff o adran gludiant yr awdurdod lleol i drafod ffyrdd i wella mynediad at gludiant i bobl ag anableddau dysgu.

Mae Ffrindiau Meifod yn grŵp o aelodau teulu sydd ynghlwm â’r grŵp llywio ar gyfer ail-lansio Meifod ac ail-lunio gwasanaethau. Mae Cynnyrch Coed Meifod yn fusnes Cyngor Sir Ddinbych sy’n darparu amgylchedd gwaith bywyd gwirioneddol i ddatblygiad personol a chymdeithasol pobl a gaiff eu cefnogi gan y Gwasanaeth Anableddau Dysgu.



## Darparwyr gofal

Rydym wedi gweithio gyda darparwyr gofal i ddarparu a gwella gwasanaethau drwy gydol y flwyddyn. Defnyddiwyd ystod o sianeli, megis cyfarfodydd rheolaidd ar-lein gyda darparwyr a galwadau lles wythnosol dros y ffôn gan y tîm contractau a chomisiynu, ochr yn ochr â rhagor o waith monitro ac adolygu contractau.

Rydym hefyd wedi gweithio gyda darparwyr i ddatblygu nifer o gynlluniau peilot recriwtio i ofal gan ddefnyddio Cronfa Adfer Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru.

Mae'r mentrau hyn yn cynnwys:

- Cymorth ariannol ar gyfer gwersi gyrru i ymgeiswyr newydd
- Cyllid tuag at brynu beiciau i ymgeiswyr nad ydynt yn gyrru
- Amrywiaeth o gynlluniau atgyfeirio gweithwyr a chroeso euraid gwahanol
- Rhoi hwb i hysbysebion ar y cyfryngau cymdeithasol
- Llwyfan ymgeisio ar-lein

Rydym yn parhau i weithio gyda darparwyr lleol i ddatblygu rhagor o gyfleoedd seibiant arloesol a chreadigol i fodloni anghenion.

## Canmoliaeth a chwynion

Mae ein Tîm Cysylltiadau Cwsmeriaid yn rheoli a monitro canmoliaeth a chwynion a dderbynnir mewn perthynas â Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion a Gwasanaethau Plant. Yn ystod 2021 - 22, derbyniwyd tua thraean yn fwy o gwynion o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Derbyniwyd nifer o gwynion dros y Nadolig yn ymwneud â gwasanaethau i blant ag anableddau cymhleth. Er na chafodd y mwyafrif o'r cwynion eu cadarnhau, rydym wedi dysgu o'r cwynion hyn bod angen gwella trefniadau cyfathrebu ar draws gwasanaethau a gyda theuluoedd.

Ni chafwyd unrhyw ymyraethau gan Ombwdsmon y Gwasanaethau Cyhoeddus yn 2021 - 22.

Cofnodwyd cyfanswm o 136 o gwynion ar draws Gwasanaethau Cymdeithasol Plant ac Oedolion yn ystod 2021 - 22. Mae hyn yn ostyngiad sylweddol o'i gymharu â'r ddwy flynedd flaenorol.

Dyma rai o'r enghreifftiau:

- "Mae tîm cyfan gwasanaeth Teleofal Sir Ddinbych yn amhrisiadwy, mae fy nghymydog wedi cael sawl codwm ac mae'r system yn wych, mae'r Ganolfan Fonitro wedi ei helpu mewn nifer o ffyrdd felly diolch i chi gyd…"
- "Mae gan fy ngwraig broblemau symudedd felly ceisiom gymorth gan UPM Sir Ddinbych, a chawsom wybod mai H oedd ein pwynt cyswllt dynodedig. Roedd yn bleser ymdrin â H, mae hi'n ddynes hyfryd a chlên.

Mae hi'n wych am dawelu meddyliau fy ngwraig. Ni allaf ddiolch ddigon iddi. Mae hi wir fel haul yn gwenu ar ddyddiau tywyll. A fyddech cystal â chyfleu ein diolch iddi a'i hatgoffa bod croeso iddi alw heibio am baned unrhyw bryd. Mae cyfnodau anodd yn llawer haws gyda phobl fel H."

- "Hoffwn ddiolch yn fawr iawn am fynd y tu hwnt i'r disgwyl ar gyfer y ferch ifanc hon a'i mab. Rydych wedi sicrhau bod yr asiantaethau'n cydweithio i ddiogelu'r bachgen bach (a'r fam) cyn belled ag y bo modd ac wedi rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf gyda phawb drwy ddulliau cyfathrebu cadarn. Rydych wedi bod yn onest gyda'r fam ac oherwydd hyn, mae hi wedi datblygu perthynas gadarnhaol gyda chi (mewn cyfnod byr) ac yn ymddiried ynoch, mae hyn yn sgil y dull a ddefnyddiwyd gennych. Drwy hyn, mae hi wedi bod yn agored ac yn onest ac yn awyddus i ymgysylltu gyda'r gefnogaeth rydych wedi'i chynnig, sydd eto'n glod i chi a'ch ymagwedd. Rydych wedi cysylltu â mi gyda'r nosau o bryd i'w gilydd i sicrhau fod gennych yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch cyn eich ymweliadau. Mae wedi bod yn wych gweithio mewn partneriaeth gyda chi."
- "Ni fyddai neb sydd wedi cwrdd â chi'n gallu eich anghofio, rydych yn seren sy'n creu argraff gydol oes ar bawb yr ydych yn dod i gysylltiad â hwy. Diolch am gredu ynof ac am fy annog."

| Cwynion a dderbyniwyd yn 2021-2022 | Gwasanaethau Addysg a Phlant | Gwasanaeth au Cymorth Cymunedol | Cyfanswm y cwynion yn y categori |
|---|---|---|---|
| **Cwynion Cam 1** | **19** | **7** | **26** |
| - canlyniad 'wedi'i gadarnhau' | 2 | 2 | 4 |
| - canlyniad 'wedi'i gadarnhau'n rhannol' | 6 | 1 | 7 |
| - canlyniad 'heb ei gadarnhau' | 11 | 4 | 15 |
| **Cwynion Cam 2** | **4** | **4** | **8** |
| - canlyniad 'wedi'i gadarnhau' | 1 | 0 | 1 |
| - canlyniad 'wedi'i gadarnhau'n rhannol' | 1 | 0 | 1 |
| - canlyniad 'heb ei gadarnhau' | 2 | 4 | 6 |

# Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2021 - 2022

Crynhowyd cyfanswm o 34 o gwynion i 4 maes

| | |
|---|---|
| - Materion gwasanaeth | 19 |
| - Materion cyfathrebu | 12 |
| - Cwynion staff | 1 |
| - Cwrteisi a Pharch | 2 |

Derbyniwyd 4 o gwynion ar lafar i'r Gwasanaethau Cymorth Cymunedol a 6 i'r Gwasanaethau Plant; gan yr ymdriniwyd â'r rhain o fewn 25 awr, fe'u cofnodwyd fel 'pryderon', yn hytrach na chwynion, dan y canllawiau statudol.


Dysgu o gwynion

Cafodd cwyn yn erbyn Gwasanaethau Cymorth Cymunedol ei gadarnhau'n rhannol a rhoddwyd gwelliannau ar waith i weithdrefnau Baner Goch mewn perthynas â chodymau, gan atgoffa staff o fewn ein cyfleusterau Tai Gofal Ychwanegol o weithdrefnau.

Dylid cynnal gwiriadau ychwanegol yn dilyn unrhyw godwm. Ni fydd mwy na hanner awr rhwng y galwadau hyn mewn achosion o anafiadau i'r pen, neu bydd aelod o staff yn aros gyda'r tenant nes y bydd y gwasanaethau brys wedi cyrraedd.

Mae cwyn wedi'i gadarnhau'n rhannol yn erbyn Gwasanaethau Plant wedi amlygu nad oedd y gwasanaeth bob amser â'r manylion cywir i rieni ar y ffeil.

Anfonwyd cyfarwyddiadau at staff i sicrhau bod y prosesau cofnodi'n gywir a'u bod yn adlewyrchu'r holl sgyrsiau a chynigwyd ystod o wasanaethau priodol megis y Gwasanaeth Oedi a Myfyrio i rieni 'y tu allan i'r ardal' neu 'y tu hwnt i gyrraedd' yn arbennig.



# Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2021 - 2022

## 4. Hyrwyddo a gwella lles y bobl yr ydym yn eu cefnogi

### a) Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu canlyniadau lles personol y mae pobl yn dymuno eu cyflawni

**Dyma ddywedom ni y byddwn yn ei wneud**

- Datblygu gofal a chymorth ymhellach i ganiatáu i bobl aros yn eu cartrefi.
- Hyrwyddo'r defnydd o daliadau uniongyrchol a chefnogi cyllidebau i wella dewis a rheolaeth Oedolion a Phlant dros gynllunio a darparu eu gofal a'u cymorth eu hunain
- Sefydlu'r defnydd o gardiau rhagdaledig i gynyddu effeithlonrwydd

**Dyma rydym wedi'i wneud a'i gyflawni**

| |
|---|
| Roedd gan 2060 o oedolion gynllun gofal a chymorth ar waith yn ystod y flwyddyn hon. Mae hyn yn gynnydd bychan iawn ers 2020-21. |
| Cwblhawyd 76.6% o asesiadau ar gyfer plant o fewn amserlenni statudol. Mae hyn yn welliant o 5% ers 2020-21. |

**Gofalwyr ifanc -** Ariennir Gwasanaeth Gofalwyr Ifanc Sir Ddinbych ar y cyd drwy'r Gwasanaethau Plant a Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf Llywodraeth Cymru. Comisiynwyd y Contract drwy broses gomisiynu is-ranbarthol gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Wrecsam - darperir y gwasanaeth, Gofalwyr Ifanc WCD, drwy Credu Cymru. Mae Gofalwyr Ifanc WCD yn cefnogi gofalwyr ifanc i gyflawni'r canlyniadau gorau posib drwy:

- Cymorth un i un,
- asesiad o angen gofalwyr ifanc,
- cynlluniau ac adolygiadau cysylltiedig,
- grwpiau a gweithgareddau,
- seibiant,
- gwybodaeth, cyngor a chymorth,
- cefnogaeth i gael mynediad at grantiau,
- gwasanaeth galw heibio ysgolion,
- cefnogi cyfranogiad gofalwyr ifanc yn y broses o ddatblygu'r gwasanaeth a sicrhau bod eu barn yn cael ei chlywed,
- nodi gofalwyr ifanc cuddiedig, a
- gweithio mewn partneriaeth gadarnhaol gyda Chyngor Sir Ddinbych.

# Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2021 - 2022

Lansiwyd y Cerdyn Adnabod Gofalwyr Ifanc a gaiff ei ariannu gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2021 ar draws Gogledd Cymru, yn dilyn blwyddyn o gydweithio'n rhanbarthol i lansio'r cardiau hyn. Cynhaliwyd y lansiad trwy gyswllt fideo yn sgil Covid-19. Gweithiodd Sir Ddinbych, cydweithwyr a phartneriaid eraill o'r awdurdod lleol gyda Chlwb Pêl-droed Wrecsam ar y lansiad. Roedd yn ddigwyddiad rhagorol i ddathlu gofalwyr ifanc a'u straeon, gyda chomisiynwyr, cynrychiolwyr ac aelodau etholedig o'r cyngor yn bresennol, a chafwyd clipiau sain gan enwogion hefyd. Roedd yn gyflwyniad perffaith i amlygu lansiad y Cerdyn Adnabod Gofalwyr Ifanc, y gall gofalwyr ifanc ei ddefnyddio o fewn ysgolion, fferyllfeydd a siopau lleol - roedd problemau â chael mynediad at archfarchnadoedd i bobl ifanc yn ystod cyfnod cynnar y pandemig. Mae sesiynau ymwybyddiaeth Cardiau Adnabod Gofalwyr Ifanc a Chyfeillgar i Ofalwyr Ifanc wedi bod yn cael eu cynnal gydag ysgolion, adrannau mewnol, partneriaid a sefydliadau ehangach Sir Ddinbych. Mae Sir Ddinbych yn parhau i gyfrannu at bartneriaeth ranbarthol lawn er mwyn gwella'r cynnig Cardiau Adnabod Gofalwyr Ifanc ar gyfer bob gofalwr ifanc yng Ngogledd Cymru. Mae hyn wedi dechrau drwy gynnig gwersi nofio am ddim, mae'r camau terfynol yn cael eu cwblhau ar hyn o bryd i sicrhau cynnig cyfartal ar draws y rhanbarth.

Mae Ynys Môn a Gwynedd eisoes wedi datblygu Ap Gofalwyr Ifanc sy'n cael ei dreialu ar hyn o bryd. Yn ystod y flwyddyn, mae Sir Ddinbych wedi bod yn gweithio gyda chydweithwyr Iechyd ac awdurdod lleol ar draws Wrecsam, Conwy a Sir Ddinbych, ynghyd â'n gwasanaethau a gomisiynir, i ddatblygu Ap Gofalwyr Ifanc hefyd. Bydd yn ategu at y Cardiau Adnabod Gofalwyr Ifanc a'r band arddwrn sydd eisoes wedi cael eu sefydlu a fydd yn rhoi dewis i'n gofalwyr ifanc.

Yn ogystal â'r Cardiau Adnabod Gofalwyr Ifanc, mae Gwasanaethau Plant, Addysg, Cefnogaeth Gymunedol, Gwasanaethau Cymunedol a Chwsmer, Sir Ddinbych yn Gweithio ac Iechyd, ynghyd â'n gwasanaethau a phartneriaid a gomisiynir, yn gweithio gyda'i gilydd yn fewnol, lleol a rhanbarthol i gefnogi'r canlyniadau gorau ar gyfer gofalwyr ifanc a'u teuluoedd.

Mae enghreifftiau o'r gwaith hwn yn cynnwys:

- Mynediad at grantiau megis y Gronfa Galedi, Grant Seibiant Gofalwyr, Gaeaf o Les, i'w darparu'n uniongyrchol i ofalwyr ifanc a'u teuluoedd, a darparu cyllid ychwanegol i ymestyn y cynnig drwy Ofalwyr Ifanc WCD.
- Nodi a chyflenwi offer TG i'w defnyddio gartref yn ystod y pandemig.

- Cefnogaeth ar gyfer gofalwyr di-dâl drwy egwyliau byr a seibiant - mae gan Sir Ddinbych ddau eiddo sydd ar gael i ofalwyr ifanc a’u teuluoedd.
- Cyfarfodydd parhaus rhwng Sir Ddinbych fel cyd-gomisiynwyr, a’r darparwr i sicrhau cefnogaeth sy’n seiliedig ar anghenion i ofalwyr ifanc yn ystod y pandemig.
- Aelodaeth WCD ar grwpiau mewnol e.e. Grŵp Strategaeth Gofalwyr Sir y Fflint, a’r Grŵp Addysg a Lles gydag WCD yn gweithio fel rhan o’r grŵp i helpu i godi ymwybyddiaeth ar draws bob ysgol, cefnogi gofalwyr ifanc mewn ysgolion uwchradd i ymgeisio am swyddi rhan-amser ochr yn ochr â’u haddysg, amlygu cysylltiadau gydag Adran Ehangu Mynediad Prifysgol Bangor sy’n hyrwyddo’r cymorth sydd ar gael i ofalwyr ifanc a gofalwyr ifanc sy’n oedolion gan y Brifysgol.
- Mae Sir Ddinbych yn aelod o Grŵp Gweithredol Gofalwyr Ifanc Gogledd Cymru sy’n cyfarfod yn chwarterol er mwyn cydweithio i ddarparu gwasanaethau i ofalwyr o bob oedran sy’n bodloni’r cynnig i ofalwyr, a nodi cyfleoedd i gydweithio’n well.

Mae Sir Ddinbych wedi datblygu Siarter Gofalwyr, a gynhyrchwyd ar y cyd gyda’r grŵp Strategaeth Gofalwyr a gofalwyr lleol gan gynnwys gofalwyr ifanc. Mae’r ffocws ar nodi gofalwyr yn llawer cynt er mwyn i ni fedru osgoi ymyrraeth brys lle bynnag y bo modd.

Mae’r Un Pwynt Mynediad ar gyfer oedolion a Phorth y Plant yn chwarae rhan allweddol yn y broses o nodi gofalwyr a dechrau’r ‘sgwrs beth sy’n bwysig’, a gwneud atgyfeiriadau at NEWCIS, a gaiff eu comisiynu i ddarparu’r gwasanaeth asesu gofalwyr. O fewn gwasanaethau oedolion, mae Asesydd Gofalwyr a sefydlwyd o fewn bob un o’r pedwar Tîm Adnoddau Cymunedol ar draws Sir Ddinbych.

Caiff y gweithiwr Gofalwyr Iach ei gefnogi fel ymarferydd iechyd ar gyfer gofalwyr di-dâl. Y nod yw grymuso dinasyddion i wella a/neu gynnal eu hiechyd a’u lles, yn cynnwys cynhwysiad cymdeithasol. Darperir cymorth a chanllawiau ar faterion megis codi a symud yn gorfforol, gofalu am y cefn a chael mynediad at weithwyr proffesiynol. Mae’n dod yn fwyfwy cyffredin i’r gweithiwr ymdrin ag atgyfeiriadau mewn argyfwng, lle bydd pecynnau gofal yn methu, neu nid ydyn nhw ar gael neu bydd pobl yn gwrthod cymorth sydd wir ei angen arnyn nhw, oherwydd ofn, patrymau meddwl negyddol ac ymwthiol ac effaith ehangach straen drwy’r amser.

Cyn y pandemig, roedd gofalwyr bron â chyrraedd pen eu tennyn, ac yn aml ar alw 24/7 heb lawer o seibiant o gwbl.

# Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2021 - 2022

Yn ystod ac yn dilyn y cyfnodau clo, cafwyd llawer llai o gyswllt wyneb yn wyneb gyda'r teulu a'r byd ehangach. Fe arweiniodd hyn at deimlad o fod wedi eu caethiwo, wedi cael eu gadael neu o fod dan warchae gyda'u gwytnwch yn is nag erioed.

Mae llawer o'r gofalwyr sydd nawr yn cael eu hatgyfeirio angen cymorth ar unwaith gyda'u hiechyd meddwl, naill ai oherwydd blinder llwyr, trawma neu alar (naill ai yn dilyn colli un o'u hanwyliaid neu siom, a'u disgwyliadau mewn bywyd wedi eu chwalu). Yn aml, nes bydd y problemau dyfnach hyn wedi'u datrys, ni ellir disgwyl i ofalwyr ymgysylltu'n well gyda'r cymorth a gynigir, gwneud dewisiadau iach yn eu bywydau neu gyflwyno'u hunain i unrhyw beth sydd y tu hwnt i'w byd cyfarwydd.

Drwy feithrin ymddiriedaeth, gwneud heriau'n dasgau bach, hylaw ac yn aml cryn dipyn o gyfryngu rhwng y gofalwr a phobl eraill sydd o'u cwmpas, mae gwaith yn mynd rhagddo i'w galluogi nhw i fagu gwytnwch a rheolaeth dros y ffactorau sy'n dylanwadu ar eu bywydau dyddiol. Yna, rhoddir y broses gyfeirio ar waith a gellir ymestyn y rhwydwaith cefnogi.

Mae ystod o staff rheng flaen gan gynnwys Llyw-wyr Cymunedol, Pwyntiau Siarad a staff / gwirfoddolwyr eraill sy'n gweithredu fel pwyntiau cyswllt, yn helpu i nodi gofalwyr sy'n newydd i'r rôl a'r rheiny sydd wedi bod yn gofalu am gyfnod hirach ond nad yw gwasanaethau statudol yn ymwybodol ohonynt, a'u cyfeirio at gefnogaeth yn y gymuned.

Mae'r timau gweithredol hefyd yn gweithio gyda gofalwyr ac yn eu cefnogi mewn gwahanol ffyrdd i fynegi eu barn a'u dewisiadau, er enghraifft; defnyddio lluniau i annog sgyrsiau am gyfleoedd seibiant a sut hoffent gael eu cefnogi, cyflwynwyd hyn yn dilyn gweithdai a ddarparwyd gan Brifysgolion Bangor ac Abertawe.

Mae gweithio gyda Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych i ddosbarthu Grant Seibiant Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n arbennig o dda. Sefydlwyd panel grantiau a chyflwynwyd gwobrau i ystod eang o sefydliadau sy'n cefnogi gofalwyr o bob oedran gan gynnwys:

- Outside Lives Ltd,
- Grŵp Gweithredu Cymunedol Prestatyn a Gallt Melyd,
- Adferiad,
- Universal Foundation CIC,
- The Denbigh Workshop

- Campfire Cymru,
- Gofal Dydd y Waen,
- Canolfan Therapi Niwro
- Voel Coaches

Rydym wedi cyflogi 2 Ymgynghorydd Byw’n Annibynnol i gefnogi dinasyddion i wneud defnydd gwell o daliadau uniongyrchol. Mae taliad uniongyrchol yn rhoi rhagor o ddewis a rheolaeth i deuluoedd dros sut caiff eu hanghenion gofal a chymorth eu bodloni. Mae Ymgynghorwyr Byw’n Annibynnol yn gweithio gyda Chwmnïau Yswiriant, darparwyr Cyflogau a darparwyr gwiriadau’r GDG i gefnogi derbynwyr taliadau uniongyrchol newydd â recriwtio a chyflogi Cynorthwywyr Personol.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i hyrwyddo’r defnydd o daliadau uniongyrchol a chardiau rhagdaledig y gall gofalwyr di-dâl eu defnyddio ar gyfer egwyliau neu seibiant byr. Yn ogystal â hynny, rydym yn parhau i weithio gyda darparwyr lleol i ddatblygu rhagor o gyfleoedd seibiant arloesol a chreadigol i fodloni anghenion. Mae’r Ymgynghorwyr Byw’n Annibynnol yn mynychu fforymau cyfoedion yn y Gogledd i hyrwyddo a chefnogi’r defnydd o daliadau uniongyrchol er mwyn bodloni canlyniadau dinasyddion.

Rydym yn gweithio gyda Chatalyddion Cymunedol i sicrhau fod pobl yn gallu cael mynediad at y math o ofal a chefnogaeth sy’n eu gweddu orau ac yn caniatáu i ddinasyddion ddarparu gofal a chymorth mewn modd sy’n cyd-fynd â’u ffordd o fyw.

Gan reoli risgiau diogelu yn ymwneud â chamdriniaeth ac esgeulustod, rydym yn gweithio gyda’r dinesydd neu eu heiriolwr i ddatblygu strategaethau i gyflawni eu hamcanion personol, naill ai yn ystod y cam ymgynghori neu drwy gyfarfod strategaeth. Mae’r rhain yn gamau o fewn Gweithdrefnau Diogelu Cymru yr ydym yn eu monitro drwy’r broses archwiliadau ansawdd chwarterol.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i gwblhau’r 19 lleoliad byw â chymorth ar gyfer pobl ag anableddau dysgu a lefelau anghenion amrywiol.

Er enghraifft:

- Cefnogwyd gefeilliaid i symud i fflat ym Mhrestatyn. Rhoddwyd taliad uniongyrchol iddynt a’r rhyddid i ddewis eu darparwr eu hunain.

- Datblygwyd byngalo i 4 unigolyn fel rhan o gyfleuster Gofal Ychwanegol, Awel y Dyffryn a agorodd yn ddiweddar yn Ninbych i gynnig darpariaeth byw â chymorth 24 awr gan ddefnyddio dull byw â chymorth traddodiadol. I fyny'r grisiau o'r prosiect hwnnw, bydd 4 fflat lled-annibynnol ar gyfer y rheiny nad ydynt yn ymofyn darpariaeth byw â chymorth 24 awr, ond yn ymofyn cymorth ar y safle.
- Cefnogwyd dau unigolyn i sefydlu cartref yn Llangollen.
- Mae pedwar fflat annibynnol yn cael eu datblygu yng Ngallt Melyd ac mae'r unigolion yn cyd-gynhrychu eu cefnogaeth eu hunain.
- Rydym yn y broses o ddatblygu prosiect a gomisiynir ar y cyd ar gyfer pobl ag ymddygiad heriol a chymhleth. Bydd y llety hwn yn atal hyd at bedwar o bobl ifanc rhag gorfod symud o'r ardal i fyw ac yn cynnig dull byw â chymorth a gaiff ei ddarparu'n lleol yn hytrach na gofal preswyl.

Mae pecyn gwaith cyd-gynhyrchu gyda thri cham wedi cael ei ddatblygu. I ddechrau, bydd yr unigolyn yn datblygu proffil sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Unwaith y bydd y proffiliau wedi'u cwblhau ar gyfer bob cyfranogwr, byddant yn cael eu casglu a bydd nifer yr oriau cymorth gofynnol yn cael ei nodi. Bydd yr unigolion yn dod at ei gilydd mewn grŵp i drafod elfennau cyffredin o'r cymorth hwnnw ac yn derbyn eglurhad o'r opsiynau caffael a'r dulliau cymorth y gellid eu defnyddio. Byddant yn cael eu cefnogi i gomisiynu'r cymorth hwnnw eu hunain, gan ddefnyddio eu dulliau dewisol.

Mae'r cynllun gofal a chymorth integredig wedi cael ei addasu i sicrhau fod bob dinesydd yn cael cynnig copi o'u cynllun gofal a chymorth. Mae ceisiadau ar gyfer gofal a chymorth ffurfiol yn destun trafodaethau grŵp er mwyn cefnogi a gwella dysgu o ansawdd uchel a hyrwyddo cynlluniau gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.

Mae'r Tîm Adsefydlu Byd-eang wedi cefnogi sesiynau "Book of You" mewn partneriaeth â'r Tîm Cydlyniant Cymunedol. Roedd unigolion yn gallu rhannu eu diwylliant a'u treftadaeth, a'u gobeithion a'u dyheadau ar gyfer y dyfodol.

Wrth adolygu'r gefnogaeth a ddarparwyd i ffoaduriaid, ymgynghorwyd â chynrychiolwyr ffoaduriaid ac ymgorffori eu barn yn yr adolygiad terfynol. Crëwyd fideo mewn partneriaeth â Chydlyniant Cymunedol, roedd y fideo'n casglu barn y teuluoedd a gafodd eu hadsefydlu ac mae wedi cael ei gyflwyno i aelodau'r Tîm Gweithredol Corfforaethol a'r Cabinet.

**Dyma rai pethau sydd eto i'w cwblhau**

| |
|---|
| Sefydlu gwaith yr Ymgynghorwyr Byw'n Annibynnol ar draws gwasanaethau oedolion a phlant i gefnogi unigolion a'u teuluoedd i dderbyn gofal a chymorth drwy daliad uniongyrchol a datblygu'r defnydd o Gardiau Rhagdaledig i wella effeithlonrwydd |
| Parhau i ddatblygu ein darpariaeth ar gyfer gofalwyr ac ymgysylltu gyda gofalwyr di-dâl ar draws Sir Ddinbych |

## b) Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hybu iechyd corfforol a meddyliol a lles emosiynol

**Dyma ddywedom ni y byddwn yn ei wneud**

- Adolygu cyfleoedd ar gyfer gwasanaethau amgen, rhannu gwybodaeth gan ficrofentrau a'r Prosiect Catalydd Cymunedol, gyda gofalwyr a sefydliadau gofalwyr.
- Adolygu ein cynnig gwybodaeth, cyngor a chymorth gan anelu at gynyddu annibyniaeth a chadernid ymysg grwpiau anodd eu cyrraedd

**Dyma rydym wedi'i wneud a'i gyflawni**

| |
|---|
| Y gyfradd oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol oedd 3.02 fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75 oed neu'n hŷn. Mae hyn yn gynnydd sylweddol o 0.86 yn 2020 - 21. |
| Yr oedran cyfartalog ar gyfer oedolion a aeth i gartrefi preswyl yn 2021-22 oedd 84. Mae'r oedran hwn yn debyg i'r flwyddyn ddiwethaf. |

**Tîm Teuluoedd Integredig Lleol**

Yn 2021, sefydlwyd y Tîm Teuluoedd Integredig Lleol drwy Raglen Drawsnewid Plant a Phobl Ifanc, sy'n cynnig cymorth cynnar wedi'i dargedu i deuluoedd sy'n cael trafferthion â rheoli ymddygiad heriol ac anarferol.

Mae'r tîm, sy'n cynnwys Llyw-wyr Lles, Therapyddion Galwedigaethol, Arbenigwyr Cefnogi Ymddygiad a Seicolegydd, yn gweithio gyda theuluoedd i ddeall yr ymddygiad heriol a gweithredu fel ffynhonnell wybodaeth a chefnogaeth i helpu i ddatblygu a gweithredu cynlluniau ymddygiad cadarnhaol a darparu ymgynghoriad arbenigol lle bo angen.

# Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2021 - 2022

Mae'r tîm amlasiantaeth sy'n cynnwys gweithwyr proffesiynol amlasiantaeth wedi datblygu dull gofal arbennig a dull partneriaeth i gefnogi teuluoedd yn Sir Ddinbych a Chonwy. Maent bellach yn weithredol ac yn gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc a'u teuluoedd.

Mae'r rhaglen hefyd wedi datblygu sgiliau 78 aelod o staff Awdurdod Lleol ac iechyd mewn therapïau y bydd y tîm yn eu defnyddio, mae hyn wedi annog dull cyffredin ac iaith a rennir, a darparu cysondeb ar draws asiantaethau a thimau partner.

Adborth gan werthuswr allanol mewn perthynas â'r Gwasanaeth Teuluoedd Integredig Lleol:

> "Roedd dull partneriaeth cryf ar lefel uwch yn sbardun allweddol ar gyfer sefydlu a chynnal y gwasanaethau newydd".
>
> "Roedd staff asiantaeth partner yn hapus gyda pha mor sydyn wnaeth tîm y Gwasanaeth Teuluoedd Integredig Lleol ymateb i atgyfeiriadau a cheisiadau am gymorth a chanllawiau…. cyfleoedd ar gyfer ymgynghoriadau a chydweithio a oedd, yn eu barn nhw, yn cyfrannu at addysg a datblygiad y gweithlu plant"
>
> "Mae teuluoedd wedi ymgysylltu'n dda"

Adborth gan rieni:

> "Mae bywyd yn y cartref bellach yn llawer gwell ers i [aelodau staff] wneud y fideo ar ein cyfer"
>
> "Mae dealltwriaeth M a minnau o'n teimladau'n llawer gwell ers i'r Gwasanaeth Teuluoedd Integredig Lleol ein helpu, mae ei ymddygiad hefyd wedi gwella"
>
> "Mae wedi bod yn hyfryd cael rhywun yn gwrando arnom ni yn hytrach na'n beirniadu ni"

### Bwthyn y Ddol

Mae tîm amlasiantaeth Bwthyn y Ddol yn parhau i weithio gyda phlant a phobl ifanc ar ffin y system ofal ac mewn perygl o fod angen derbyn gofal gan nad yw eu rhiant neu ofalwr, am amrywiaeth o resymau, yn gallu rheoli dynamig teuluol iach.

Bydd y tîm yn canolbwyntio ar ffurfio cryfderau ac anawsterau, peryglon ac anghenion drwy broses ymgynghori i ddechrau, er mwyn argymell rhaglen o ymyraethau.

# Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2021 - 2022

Datblygwyd y dull gofal drwy dîm amlasiantaeth gan ganolbwyntio ar ofynion ac anghenion arbennig plant a phobl ifanc yn Sir Ddinbych a Chonwy. Mae’r dull arloesol hwn i fodel gofal sy’n seiliedig ar dystiolaeth, ynghyd â’r ymarfer myfyriol a fabwysiadwyd gan y tîm, eisoes wedi arwain at ganlyniadau cadarnhaol gyda phlant / pobl ifanc yn cwblhau'r ymyrraeth ac yn aros yn eu cartref gyda’u teuluoedd yn ddiogel.

Mae rhoi’r plentyn neu’r unigolyn ifanc wrth wraidd y fformiwleiddiad clinigol a defnyddio dull teulu cyfan wedi galluogi trafodaethau cydweithredol rheolaidd sydd wedi hyrwyddo gwaith partneriaeth ar draws bob asiantaeth.

Sicrhawyd cyllid ar gyfer canolfan asesu ranbarthol i gefnogi gwaith tîm amlasiantaeth Bwthyn y Ddol. Bydd y ganolfan newydd sbon yn cynnwys tri adeilad ar wahân a fydd yn cynnwys llety asesu wedi’i drefnu o flaen llaw ar gyfer pedwar o blant neu bobl ifanc, llety tymor byr heb ei gynllunio ar gyfer dau blentyn neu unigolyn ifanc a chanolfan asesu ac ymyrryd. Bu’n rhaid oedi’r gwaith o gwblhau’r ganolfan, fodd bynnag, mae cyllid yn parhau i fod ar gael a rhagwelir y bydd y datblygiad wedi’i gwblhau yn gynnar yn 2023.



Mae’r tîm Un Pwynt Mynediad wedi ffurfio cysylltiadau agos gyda’r Tîm Atal Digartrefedd drwy gyd-leoli Swyddogion Brysbennu’r Tîm Atal Digartrefedd gydag Un Pwynt Mynediad. Mae hyn wedi gwella’r mynediad at opsiynau ataliol, a gwybodaeth, cyngor a chymorth i’r rheiny sydd mewn perygl o golli eu tenantiaeth neu eu cartref.

Er enghraifft: Derbyniwyd atgyfeiriad gan lywiwr cymunedol ar gyfer hen ddynes a oedd mewn perygl o golli ei heiddo. Roedd y sefyllfa'n gymhleth iawn a bu'n rhaid i Shelter Cymru ymyrryd. Mae'r ddynes bellach yn gweithio gyda gweithiwr cefnogi tai ac wedi ail-ymgeisio am y gofrestr tai, a'r gobaith yw y bydd yn gallu aros yn ei heiddo, neu'n gallu dod o hyd i lety priodol cyn y bydd angen ystyried llety brys.

Derbyniodd Un Pwynt Mynediad atgyfeiriad ar gyfer dyn sy'n aros ar soffa ei ffrind yn y Rhyl ar hyn o bryd. Gan weithio ochr yn ochr â'r Tîm Cefnogi Synhwyrau, cysylltom â'r dinesydd, sydd ag awtistiaeth a gorsensitifrwydd i sain, ac felly'n cael trafferth gyda derbyn galwadau ffôn. Llwyddom i ddarparu'r cyngor perthnasol dros e-bost. Roedd hyn yn cynnwys mynediad at gyngor a chefnogaeth tai gan Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru.

Mae Sir Ddinbych wedi derbyn llefydd ar gwrs lleihau straen 8 wythnos yn seiliedig ar Ymwybyddiaeth Ofalgar a gaiff ei gynnal gan Brifysgol Bangor a'i ariannu gan y Tîm Trawsnewid Anableddau Dysgu Rhanbarthol. Mae'r rhaglen yn anelu at ddarparu dulliau ymwybyddiaeth ofalgar arbennig i bobl ag anableddau dysgu, eu gofalwyr a'u haelodau teulu.

Mae nifer o ddinasyddion Sir Ddinbych ynghlwm â phrosiect gwirio iechyd cyfeillion rhanbarthol a ddarperir drwy Cyswllt Conwy. Mae'r prosiect yn anelu at godi ymwybyddiaeth am, a chynyddu'r nifer sy'n manteisio ar, wiriadau a sgriniadau iechyd i bobl ag anableddau dysgu ar draws y rhanbarth. Caiff y sesiynau eu llunio a'u darparu gan bobl ag anableddau dysgu, a gaiff eu hadnabod fel Hyrwyddwyr Gwiriadau Iechyd, gyda chymheiriaid hyfforddi'n cael eu cyflogi i ddarparu hyfforddiant.

Mae rhagor o bobl wedi ymgymryd â rôl gofalu yn ystod y pandemig. Mae ein galwadau Cadw Mewn Cysylltiad wedi nodi gofalwyr cudd nad oeddent yn derbyn cymorth gan unrhyw wasanaethau ac a oedd mewn perygl o unigedd neu fethiant. Mae ein Gweithiwr Gofalwyr Iach yn parhau i wella neu gynnal iechyd a lles gofalwyr. Mae hi'n gallu cynnig cyngor ac arweiniad ar faterion megis codi a symud yn gorfforol, gofalu am y cefn a chael mynediad at weithwyr proffesiynol i fynd i'r afael â phroblemau iechyd eraill. Yn ogystal â hynny, mae hi'n ymdrin ag atgyfeiriadau mewn argyfwng, lle bydd pecynnau gofal yn methu, neu nid ydyn nhw ar gael neu bydd pobl yn gwrthod cymorth.

Caiff gofalwyr di-dâl eu nodi o fewn y cynllun gofal a chymorth integredig a bydd y cynllun gofal i ddinesydd yn adlewyrchu manylion y gofal a'r gefnogaeth a ddarperir gan ofalwyr i fodloni'r canlyniadau cytunedig i'r dinesydd.

# Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2021 - 2022

Mae asesiadau gofalwyr wedi parhau drwy gydol y pandemig, gan gynnwys sgyrsiau 'Beth sy'n Bwysig' gyda gofalwyr, i drafod ystod o opsiynau i roi hwb i'w gwytnwch nhw a'r rheiny o'u hamgylch.  Mae aseswyr gofalwyr hyfforddedig ar gael i gefnogi gofalwyr i gyflawni'r canlyniadau y maent wedi'u nodi eu hunain, yn unol â dull yr awdurdod sy'n seiliedig ar asedau - mae hyn yn annog defnyddio teulu a chymuned lle bynnag y bo modd.

Mae gan bob gofalwr ar draws Sir Ddinbych fynediad at y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a lles a ddarperir gan NEWCIS, gan gynnwys y cynnig cerdyn argyfwng i ofalwyr. Anogir gofalwyr i ddatblygu cynlluniau wrth gefn yn barod at yr amser pan na fydd y gofalwr yn gallu ymdopi mwyach a/neu pan fydd iechyd yr unigolyn sy'n derbyn gofal yn dirywio.

Gan ddysgu yn dilyn Covid-19, mae rhai gofalwyr wedi elwa'n sylweddol o fynediad at wasanaethau cymorth ar-lein, ond mae'n rhaid i ni hefyd ystyried a chefnogi pobl sy'n profi allgau digidol. Mae cefnogaeth wyneb yn wyneb yn ail-ddechrau'n raddol, ond mae darparwyr yn parhau i fod yn wyliadwrus ac yn cynnig dull cymysg. Mae asesiadau gofalwyr yn parhau i gael eu cynnal ar-lein yn bennaf, fodd bynnag, cynhaliwyd ymweliadau â gerddi a digwyddiadau awyr agored lle bo modd yn ystod yr haf y llynedd, pan oedd y tywydd yn caniatáu.

Mae comisiynwyr yn gweithio'n agos gyda phartneriaid Trydydd Sector i ymgysylltu â gofalwyr cudd a sicrhau bod cefnogaeth ar waith, yn arbennig er mwyn nodi gofalwyr nas clywir yn aml a datblygu gwasanaethau i ymateb i anghenion arbennig.

Mae gan Gyngor Sir Ddinbych gontract ar y cyd gyda Chonwy ar gyfer eiriolaeth broffesiynol annibynnol i ofalwyr sy'n oedolion, a gaiff ei adolygu dros y flwyddyn nesaf.  Comisiynir Cymdeithas Cyngor ac Eiriolaeth Gogledd Cymru i ddarparu cefnogaeth i deuluoedd sy'n gofalu am bobl ag anableddau dysgu. Mae gwasanaethau eraill yn cael eu comisiynu i ddarparu eiriolaeth lefel isel.

Cynhelir cyfarfodydd achosion cymhleth wythnosol ar draws ein Timau Adnoddau Cymunedol, sy'n darparu dull Tîm Amlddisgyblaeth i fodloni canlyniadau dinasyddion.  Mae cynrychiolwyr nyrsys ardal, iechyd meddwl fferyllfa, therapïau gofal cymdeithasol ac Ailalluogi, yn cymryd rhan yn y cyfarfodydd wythnosol ac yn sicrhau ymateb prydlon, di-dôr a chydlynol i ddinasyddion gydag anghenion cymorth cymhleth.

# Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2021 - 2022

Rydym yn parhau i gefnogi datblygiad Catalyddion Cymunedol / Micro - Gyflogwyr yn Sir Ddinbych i ddarparu cymorth a gwybodaeth i ofalwyr di-dâl sydd o bosibl yn awyddus i ddechrau microfenter.

Mae Tîm Adsefydlu Byd-eang Cyngor Sir Ddinbych yn comisiynu gwasanaeth adsefydlu a chefnogi ffoaduriaid gyda'r Groes Goch Brydeinig. Hyd yma, mae 25 o deuluoedd, gan gynnwys 107 o unigolion wedi cael eu cefnogi i adsefydlu yn Sir Ddinbych.

**Dyma rai pethau sydd eto i'w cwblhau**

| |
|---|
| Datblygu capasiti gofal a chymorth ymhellach ar draws Sir Ddinbych drwy barhau i gefnogi'r prosiect Catalydd Cymunedol, i ddarparu microfentrau. |
| Parhau i weithio mewn partneriaeth gyda bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i ddatblygu a gweithredu Bwthyn y Ddol. |

## c) Amddiffyn a diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed

**Dyma ddywedom ni y byddwn yn ei wneud**

- Parhau i sefydlu Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan i bob agwedd o Wasanaethau Plant.
- Sicrhau bod Trefniadau Diogelu Rhyddid yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

**Dyma rydym wedi'i wneud a'i gyflawni**

| |
|---|
| Cwblhawyd 100% o ymholiadau amddiffyn oedolion o fewn yr amserlenni statudol. Mae'r ganran hon yn cymharu â'r flwyddyn ddiwethaf. |
| O'r plant hynny a oedd wedi'u cynnwys ar y gofrestr amddiffyn plant yn ystod y flwyddyn gasglu, y nifer a oedd wedi'u cofrestru'n flaenorol dan unrhyw gategori, ar unrhyw bryd yn ystod y deuddeg mis oedd 3, ac roeddent yn dod o'r un grŵp teulu. |
| Cyfanswm y dyddiau ar y gofrestr amddiffyn plant ar gyfer plant a dynnwyd oddi ar y gofrestr yn ystod y flwyddyn = 28,281. Cyfanswm y plant a dynnwyd oddi ar y gofrestr amddiffyn plant yn ystod y flwyddyn = 82. Mae hyn yn rhoi cyfartaledd o 345 diwrnod i ni. Mae hyn yn ostyngiad o 100 diwrnod ers y flwyddyn flaenorol. |

# Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2021 - 2022

### Trefniadau Diogelu Rhyddid

Mae oedi wedi bod yng nghyflwyniad y Trefniadau Amddiffyn Rhyddid i ddisodli'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid presennol. Mae ymgynghoriad wedi dechrau ac ni ddisgwylir canlyniad yr ymgynghoriad tan ddiwedd 2022. Rydym felly'n disgwyl dechrau paratoi ar gyfer cyflwyno Trefniadau Amddiffyn Rhyddid yn ystod gaeaf 2022 a'u gweithredu yn ystod Gwanwyn 2023.

### Y Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf / Dechrau'n Deg Integredig

Mae'r Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf / Dechrau'n Deg Integredig yn darparu ystod o Gefnogaeth i Deuluoedd a Rhieni yn Sir Ddinbych. Rydym yn anelu at ddarparu ymyrraeth gynnar a gwasanaethau atal i deuluoedd diamddiffyn, er mwyn atal y sefyllfa rhag gwaethygu a sicrhau bod plant yn ein hardaloedd mwyaf difreintiedig yn derbyn cymorth ychwanegol.

Yn 2021 - 22, derbyniodd ein gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf 302 o atgyfeiriadau. Roedd gennym restr aros fisol gyfartalog o 18 ac amser aros cyfartalog o 26 diwrnod yn dilyn derbyn atgyfeiriad i ddynodi gweithiwr. Rydym wedi cefnogi 369 o deuluoedd ac wedi asesu anghenion 114 o deuluoedd o'r newydd.

Mae'r Tîm o Amgylch y Teulu'n cydlynu nifer o wasanaethau ac ymyraethau mewn perthynas â theuluoedd unigol, gan sicrhau ymgysylltiad, asesiadau o anghenion a chymorth â chynllunio. Ymysg problemau parhaus ac anghenion amrywiol mewn perthynas â Covid-19, mae'r Tîm o Amgylch y Teulu wedi llwyddo i gwblhau 29 cynllun gweithredu gyda theuluoedd. Gan ddefnyddio dull a beilotwyd gan Lywodraeth Cymru, rydym wedi amcangyfrif yr arbedion ariannol a gyflawnwyd gan y Tîm o amgylch y Teulu ar gyfer gwasanaethau eraill. Mae'r ffigurau diweddaraf sydd ar gael ar gyfer Ionawr a Rhagfyr 2021 yn dangos arbedion o £122,823:

| Sector | Arbedion | Maes Gweithredu |
|---|---|---|
| Trosedd | £52,272 | Ymddygiad gwrthgymdeithasol, cam-drin domestig ac |
| Addysg | £22,264 | Absenoldeb, gwaharddiadau a pharatoi at yr ysgol |
| Iechyd | £6,187 | Camddefnyddio Cyffuriau |
| Iechyd Meddwl | £18,052 | Problemau iechyd meddwl mewn plant, pobl ifanc ac |
| Cyflogaeth | £24,048 | Cefnogaeth i gael gwaith |

# Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2021 - 2022

Yn 2021, fe wnaeth ein Hymwelwyr Iechyd Dechrau'n Deg gefnogi 1,182 o blant dan 4 oed yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig ym Mhrestatyn, y Rhyl a Dinbych. Cefnogom 52 o deuluoedd pellach ar draws y sir drwy allgymorth. Mae ein therapyddion lleferydd ac iaith wedi helpu 102 o blant ochr yn ochr â'n tîm Datblygu iaith Gynnar, a ddarparodd ymyrraeth Portage a Chwerthin a Dysgu i 36 o blant. Rhwng mis Ionawr a mis Rhagfyr 2021, darparom 31,998 o sesiynau gofal plant i 366 o blant, a darparwyd 1,348 o sesiynau ychwanegol.

Mae ein Hymwelwyr Iechyd yn cyfrannu'n sylweddol at ddiogelu plant yn Sir Ddinbych. Rhwng mis Ionawr a mis Rhagfyr 2021, cysylltodd y tîm gyda 218 o blant mewn mesurau Amddiffyn Plant, 135 o blant gyda Chynlluniau Gofal a Chymorth a 115 o Blant Sy'n Derbyn Gofal. Cysylltwyd â 639 o blant a oedd yn ymofyn gwasanaeth Dwys Haen 3.

**Ymwelwyr Iechyd 2021**

- Atgyfeiriadau Amddiffyn Plant - 102
- Adroddiadau Llys / Datganiadau'r Heddlu - 12
- Adroddiadau Cynadleddau Achosion / Cynadleddau Achosion a fynychwyd - 77
- Adroddiadau MARAC - 26
- Adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal a fynychwyd - 29
- Asesiadau Diogelu Cyn Geni - 97
- Cyfarfodydd yn ymwneud â diogelu a fynychwyd- 337

Ym mis Ionawr, penodwyd Nyrs Diogelu newydd a fynychodd 4 o Gynadleddau Achosion a 6 o gyfarfodydd Gweithwyr Proffesiynol (Grwpiau Craidd / Cynlluniau Gofal a Chymorth / Plant sy'n Derbyn Gofal).



# Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2021 - 2022

**Astudiaeth Achos - Tîm o Amgylch y Teulu**

Atgyfeiriwyd y teulu at y Tîm o Amgylch y Teulu yn dilyn asesiad rhan 2, gyda chais am wasanaethau cydlynol parhaus (Hafod, Addysg ac Iechyd) a chefnogaeth â rhianta, yn ogystal â chymorth emosiynol i'r plentyn. Roedd ar y rhieni eisiau cymorth â rheoli ymddygiad heriol eu plentyn. Roedd ar un rhiant eisiau cymorth gyda chael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl.

Yr hyn a wnaethom:

- Derbyn cefnogaeth gan y Llywiwr Lles i'r Anabl a'r prosiect Gwasanaeth Teuluoedd Integredig Lleol.
- Atgyfeirio at y gwasanaeth niwro ddatblygiad
- Cyfathrebu'n well gydag addysg.
- Ail-feithrin perthynas gyda Hafod.
- Eirioli gyda'r Meddyg Teulu
- Cael mynediad at eiriolaeth

Mae gan y ddau riant berthynas dda gydag addysg ac maent wedi derbyn diweddariad cadarnhaol. Mae'r plentyn yn gwneud yn dda iawn yn academaidd ac yn derbyn sesiynau meithrin un i un. Mae Rhiant A bellach yn cael mynediad at apwyntiadau bob yn ail wythnos yn Hafod ac yn cael mynediad at grwpiau yn y ganolfan merched yn ogystal â chymorth cwnsela. Diolchodd y ddau riant i'r Tîm o Amgylch y Teulu am eu mewnbwn a'u cefnogaeth. Roeddent bellach yn teimlo eu bod yn derbyn y gefnogaeth a oedd ei hangen arnynt.

Mae Cymdeithas Tai Clwyd Alyn yn gweithio gyda phobl ddigartref sengl ag anghenion dwys. Gyda'u Hymddiriedaeth, Gobaith a'u Caredigrwydd, maent yn cefnogi eu dinasyddion i roi cyfleoedd a dewisiadau iddynt o ran beth sy'n bwysig iddynt.

Er enghraifft: Mae un o'n dinasyddion sy'n derbyn cefnogaeth wedi'i theilwra gan Gymdeithas Tai Clwyd Alyn, gydag anogaeth drwy sgyrsiau â staff, bellach yn gallu gwneud eu dewisiadau eu hunain am y pethau sy'n bwysig iddyn nhw. Mae llais y dinesydd yn cael ei glywed ac ymddiriedir ynddynt i wneud penderfyniadau'n annibynnol ac mae hyn wedi datblygu eu hyder sydd wedi arwain at gyfleoedd i wirfoddoli o fewn Cymdeithas Tai Clwyd Alyn.

# Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2021 - 2022

Mae pobl ifanc 16 ac 17 oed wedi'u lleoli yn llety â chymorth LGBTQ+ Tŷ Pride, yn nodi eu bod yn teimlo'n ddiogel. Mae 68% o'r gymuned hon wedi cael eu gwrthod gan eu rhieni ac mae Tŷ Pride yn rhywle diogel lle gallant fod yn hwy eu hunain mewn amgylchedd meithringar a llawn ymddiriedaeth, a rhywle y gallant ei alw'n gartref.



Rydym yn parhau i sefydlu Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan drwy gyfres o gyfleoedd hyfforddiant i bob aelod o staff awdurdod lleol yn ogystal â darparwyr annibynnol a'r trydydd sector. Cynhelir cyrsiau Ymwybyddiaeth Sylfaenol o Ddiogelu Oedolion a Phlant yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn gydag oddeutu 3 neu 4 yn cael eu darparu bob chwarter.  Mae rhagor o hyfforddiant penodol / arbenigol ar gael hefyd e.e.;

- Cam-drin Domestig,
- Diogelu Oedolion ar gyfer Rheolwyr gwasanaethau darparu,
- Deall ymddygiad celcio,
- Diogelu Cyd-destunol,
- Ffiniau proffesiynol,
- Ymholiadau ac Ymchwiliadau Diogelu Oedolion.

Mae'r Tîm Diogelu Oedolion wedi bod yn gweithio'n agos gydag asiantaethau partner ym mhob agwedd o ddiogelu pobl rhag camdriniaeth ac esgeulustod, gyda phwyslais pellach ar sefydlu proses Adran 5 - 'Honiadau / Pryderon Diogelu am ymarferwyr a'r rheiny mewn safle o ymddiriedaeth'. Rydym wedi datblygu offeryn archwilio ansawdd i fonitro ac adolygu'r broses hon.

Mae'r platfformau ar-lein, megis Microsoft Teams, yn parhau i fod yn llwyddiannus iawn ar gyfer cynnal cyfarfodydd diogelu, ac yn caniatáu presenoldeb gwell a'r gallu i'w trefnu'n brydlon. Mae'n bwysig monitro'r broses hon, i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas i'r diben, wrth i asiantaethau a darparwyr edrych ar eu ffyrdd newydd eu hunain o weithio i'r dyfodol.

Mae aelodau'r tîm Diogelu Oedolion yn mynychu cyfarfodydd tîm o bryd i'w gilydd i godi ymwybyddiaeth am ddatblygiadau diogelu a darparu cyngor ac eglurhad i aelodau tîm mewn Timau Gweithredol.

**Astudiaeth Achos - Uned Diogelwch Trais Teuluol (DASU)**

Atgyfeiriwyd Mrs A ar gyfer cefnogaeth yn ôl yr angen gan y tîm argyfwng. Mae ganddi hi sawl plentyn yn amrywio o oedran cyn ysgol i'r arddegau. Roedd Mrs A wedi cyflwyno ei hun i'r Tîm Atal Digartrefedd ar ôl dianc rhag camdriniaeth ddomestig yn Lloegr. Roedd hi a'i phlant wedi bod yn aros mewn llety gwyliau yng Ngogledd Cymru nes i'r landlord ofyn am yr eiddo yn ôl.

Lleolwyd yr ALI Mrs A mewn llety brys gyda'i phlant, lle'r oedd y teulu'n rhannu un ystafell gyda dau wely dwbl. Roedd Mrs A wedi symud rhwng 12 lloches yn flaenorol gan fod ei gŵr yn dod o hyd iddi bob tro. Nid oedd modd iddynt gael mynediad at loches gymunedol mwyach gan fod ei phlentyn yn 17 oed. Roedd Mrs A yn bryderus gan fod y gamdriniaeth o natur rywiol, gorfforol a gorfodol difrifol ac wedi cael ei chyflawni tuag at Mrs A a'i phlant. Roedd plant Mrs A ar y gofrestr Plant Mewn Angen yn Lloegr, ond nid oedd y gweithiwr cymdeithasol yn ymwybodol o'u lleoliad. Roedd Mrs A hefyd yn ei chael hi'n anodd fforddio bwyd a dillad i blant, nid oedd hi'n gwybod sut i ymgeisio am ysgolion ac roedd arni hi angen cofrestru gyda Meddyg Teulu i fodloni eu hanghenion iechyd.

Yn sgil y lefel uchel o risg a oedd ynghlwm ag achos Mrs A, o ystyried y wybodaeth a ddarparwyd ganddi hi ar lafar a thrwy ddogfennau cyfreithiol, atgyfeiriwyd y teulu at gynhadledd asesu risg amlasiantaeth, eiriolwr annibynnol trais domestig a'n gweithiwr Plant a Phobl Ifanc. Cysylltom â'u gweithiwr cymdeithasol yn Lloegr, a chyflwyno atgyfeiriad diogelu at ein gwasanaethau cymdeithasol a chysylltu â chyfreithiwr teulu lleol.

Nid oedd y llety brys yn briodol ar gyfer y teulu felly fe'u haseswyd ar gyfer un o unedau gwasgaredig DASU; lloches ar gyfer un teulu heb unrhyw gyfyngiadau oedran.

| |
|---|
| Roedd yr asesiad yn un cadarnhaol a chefnogwyd y teulu i symud ar y diwrnod canlynol, sef pen-blwydd y plentyn ieuengaf, digwydd bod.<br><br>Cytunodd y Banc Bwyd lleol i ddarparu parsel bwyd mawr gyda chacen pen-blwydd a danteithion yn ogystal â dillad. Cefnogwyd Mrs A i gofrestru ar gyfer ysgolion a meddyg teulu lleol.<br><br>Dywedodd Mrs A ei bod yn hynod ddiolchgar ac nad oedd hi erioed wedi derbyn cefnogaeth cystal â'r hyn a ddarparwyd gan DASU, a nododd bod y staff yn 'glên ac yn llawn empathi'. |

**Dyma rai pethau sydd eto i'w cwblhau**

| |
|---|
| Parhau i sefydlu Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan i bob agwedd o Wasanaethau Plant. |
| Sicrhau bod staff yn cael eu paratoi'n effeithiol ar draws Gwasanaethau Oedolion a Phlant er mwyn gweithredu Trefniadau Amddiffyn Rhyddid. |

## d) Annog a helpu pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas

**Dyma ddywedom ni y byddwn yn ei wneud**

- Cynnal ac ymestyn y prosiect gwirfoddolwyr llwyddiannus a sefydlwyd mewn ymateb i'r pandemig Covid-19
- Sefydlu'r ethos Symud Gydag Urddas i'r holl wasanaethau a gaiff eu darparu a'u comisiynu gan y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol a hefyd sicrhau bod staff perthnasol yn meddu ar y sgiliau priodol i fedru asesu neu ddarparu'r gofal cywir.
- Adeiladu ar y gwaith a gwblhawyd hyd yma a datblygu technolegau cynorthwyol ymhellach i gynyddu mynediad a gwybodaeth o fewn Gwasanaethau Cymorth Cymunedol a'r gymuned.

**Dyma rydym wedi'i wneud a'i gyflawni**

| |
|---|
| Yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth, roedd 9 o blant sy'n derbyn gofal wedi profi un neu fwy o newidiadau yn yr ysgol dros y cyfnodau o dderbyn gofal nad oeddent yn ymwneud â threfniadau pontio.  Mae'r ffigwr hwn wedi codi o 6 yn y flwyddyn gynt. |

# Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2021 - 2022

| |
|---|
| Canran y plant yn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 a 4 – nid oedd y data hwn ar gael ar gyfer blwyddyn ysgol 19-20 yn sgil y cyfnod clo Covid-19 a ni fydd data 20-21 yn cael ei ryddhau tan Awst 2022. |

**Grŵp Facebook preifat i ofalwyr maeth**

Gofynnwyd i ofalwyr maeth rannu eu barn am ba wybodaeth y dylid ei rhannu mewn grŵp Facebook preifat - e.e. amserlenni hyfforddiant, templedi ffurflenni safonol a hysbysiadau am ddigwyddiadau sydd ar y gweill. Mae grŵp arbennig wedi cael ei greu sy'n cael ei ddiweddaru'n gyda gwybodaeth yn rheolaidd. Mae'r grŵp hwn wedi cynnig rhywle arall i gasglu adborth. Rhannir y wybodaeth gydag ardal ddaearyddol fwy ac mae hygyrchedd wedi gwella.

Mae'r tîm Maethu wedi trefnu i wahodd bob gofalwr maeth i fore coffi ar-lein. Ynghyd â'r gwahoddiad, roedd pecyn a oedd yn cynnwys bag te a bisgedi. Er mwyn helpu'r gofalwyr maeth i deimlo'n fwy cyfforddus ac i ganiatáu ar gyfer sgyrsiau gwell, rhannwyd y gofalwyr maeth i grwpiau yn seiliedig ar eu gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol.

Hwyluswyd y boreau coffi ar-lein gan y gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol, gyda Phennaeth y Gwasanaeth, Rheolwr y Gwasanaeth, Rheolwr y Tîm Maethu a'r Swyddog Recriwtio / Comisiynu Lleoliadau'n galw heibio o bryd i'w gilydd.

Nod y boreau coffi ar-lein oedd rhoi cyfle i ofalwyr gael sesiwn dal i fyny awr o hyd mewn amgylchedd anffurfiol. O safbwynt Timau Maethu, roedd y rhain yn llwyddiannus gyda phresenoldeb da a llawer o chwerthin a thrafod. Roedd yr adborth a gasglwyd gan y gofalwyr maeth a fynychodd y boreau coffi yn gadarnhaol iawn.

Mae'r Gwasanaeth Maethu wedi cynyddu lefel y cyfathrebu gyda gofalwyr maeth, gyda newyddlen reolaidd â chystadleuaeth boblogaidd Gwasanaeth Maethu Sir Ddinbych, lle gofynnir i blant gynllunio cardiau Nadolig, peintio cerrig a thyfu blodau'r haul.

**Gwefan Maethu Cymru Sir Ddinbych**

Mae'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru wedi dod at ei gilydd i ffurfio rhwydwaith genedlaethol o arbenigedd maethu lleol a elwir yn Maethu Cymru / Foster Wales.

# Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2021 - 2022

Mae'n canolbwyntio ar wneud gwahaniaeth ar lefel genedlaethol, i weithio gyda'i gilydd a gyda gofalwyr maeth, a datblygu dyfodol gwell ar gyfer plant lleol. Rydym yn rhannu un brand ac yn siarad ag un llais i'n helpu i recriwtio a chefnogi gofalwyr maeth.

Mae gan y gwasanaeth 2 o fforymau Plant / Pobl Ifanc sy'n cyfarfod yn rheolaidd ac er nad ydynt wedi gallu cyfarfod dros y flwyddyn ddiwethaf, mae staff sydd ynghlwm â chynnal y fforymau wedi bod yn cysylltu'n rheolaidd â hwy.

**Fforwm Pobl Ifanc Clwb Plant Mewn Gofal**

Mae'r Clwb Plant Mewn Gofal yn fforwm a sefydlwyd yn 2014 ar gyfer pobl ifanc rhwng 8 a 15 oed yn Sir Ddinbych sy'n derbyn gofal ac yn byw â gofalwyr maeth. Maent yn cyfarfod yn ystod gwyliau hanner tymor ac yn cymryd rhan mewn ystod o weithgareddau. Mae'n gyfle i rannu eu profiadau, dweud beth sy'n gweithio'n dda a beth hoffent ei newid.

**Plant / Pobl Ifanc y mae eu rhieni'n maethu**

Mae'r Clwb Plant Sy'n Gofalu'n grŵp o blant a phobl ifanc y mae eu rhieni'n maethu ac sydd hefyd yn rhan o'r broses o faethu. Yn yr un modd â'r Clwb Plant Mewn Gofal, maent yn cyfarfod yn ystod gwyliau hanner tymor, ac mae'n gyfle iddynt ddod at ei gilydd, rhannu profiadau, dweud beth sy'n gweithio'n dda a beth hoffent ei newid.

**Symud Gydag Urddas**

Mae'r prosiect Symud Gydag Urddas, sy'n cynnwys rôl y Therapydd Galwedigaethol, yn faes arbennig. Mae'n cynnwys hyrwyddo annibyniaeth a thechnegau codi a symud ar gyfer darparwyr gofal. Gan ddefnyddio dull caredig a meddylgar, mae'n cynnwys ystyriaeth o nifer y gofalwyr sydd eu hangen i fodloni anghenion unigolyn, wrth iddynt gael eu codi, eu trosglwyddo neu eu hail-leoli gan ddefnyddio technegau a chyfarpar arbennig.

Mae'r prosiect wedi parhau i gael ei gyflwyno yn ystod 2021-22. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd 5 sesiwn gyda Therapyddion Galwedigaethol i adnewyddu eu sgiliau gan ddefnyddio systemau rheoli gwlâu. O ganlyniad, mae'r system rheoli gwlâu Nordig bellach yn rhan o'r stoc graidd a gellir ei harchebu gan ein Gwasanaeth Cyfarpar Cymunedol, sydd wedi lleihau'r oedi rhwng yr asesiad cychwynnol a darparu gwlâu i ddinasyddion.

Cynhaliwyd dwy sesiwn hyfforddiant ffurfiol ym mis Hydref 2021 gyda 22 o staff gofal o'n tîm Annibyniaeth Gartref mewnol.

Yn dilyn yr hyfforddiant, mae'r tîm bellach yn gweithio tuag at sicrhau bod pecynnau gofal ar gyfer y rheiny a ryddhawyd o'r ysbyty'n cael eu hystyried o fewn ethos Symud Gydag Urddas cyn trosglwyddo gofal i ddarparwyr gofal cartref allanol.

Gweithredwyd prosiect peilot gydag asiantaeth Gofal Cartref Seashells, lle derbyniodd y Rheolwr a'r hyfforddwr Codi a Symud sesiwn hyfforddiant ymwybyddiaeth i drafod ethos Symud Gydag Urddas, sydd bellach yn cael eu cyflwyno gyda'u tîm gofal. Y nod yw, unwaith y bydd yr holl hyfforddiant wedi cael ei gwblhau, bydd gwaith yn mynd rhagddo i adolygu pecynnau gofal dwy law.

Cwblhaodd arweinydd y prosiect Symud Gydag Urddas sesiwn hyfforddiant gyda hyfforddwyr Codi a Symud Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i drafod gofal gan unigolyn yn eu sesiynau hyfforddiant i staff BIPBC mewnol.

Anogir a chefnogir gofalwyr di-dâl i ymgymryd ag ystod o hyfforddiant drwy raglen Tîm Datblygu Gweithlu Sir Ddinbych. Caiff hyn ei ariannu gan y Rhaglen Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol ac mae'n cynnwys hyfforddiant Codi a Symud i ofalwyr di-dâl.

### Project Search

Mae Tîm Anableddau Cymhleth Sir Ddinbych yn cydweithio gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a'r tîm Trawsnewid Anableddau Dysgu Rhanbarthol er mwyn datblygu safle Project Search o fewn Ysbyty Glan Clwyd.

Mae Project Search yn gynllun sy'n cefnogi pobl ag anableddau dysgu i sicrhau cyflogaeth â thâl gan ddefnyddio dull interniaeth. Mae coleg lleol yn dysgu'r sgiliau angenrheidiol, ac mae cyflogwr lleol yn darparu'r interniaeth. Ar hyn o bryd, mae saith o bobl naill ai ag Anabledd Dysgu neu Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig ar y rhaglen.

### Y defnydd o dechnoleg

Mae'r dechnoleg o fewn ein lleoliadau preswyl cofrestredig yn cynnwys technoleg a ysgogir gan lais, h.y. Alexa, i ganiatáu i ddinasyddion ddewis eu cerddoriaeth, podlediadau neu wybodaeth gyffredinol eu hunain. Mae staff wedi cael eu hyfforddi i ddefnyddio'r rhain a throsglwyddo eu sgiliau i'r preswylwyr.

Rydym yn defnyddio dyfeisiau portholion Facebook a llechi digidol ar gyfer galwadau fideo yn ein cartrefi a thu hwnt.

Rydym hefyd wedi gosod sgriniau teledu 75 modfedd ynghyd â'r portholion. Mae seinyddion amgylchynol yn golygu y bydd preswylwyr yn gallu clywed y teledu ble bynnag maent yn eistedd yn y lolfa.

Rydym wedi cyflwyno taflunydd clyfar. Mae gan y taflunydd lyfrgell o gemau a chyfryngau eraill y gall dinasyddion ryngweithio â hwy, naill ai ar y llawr neu ar fwrdd. Mae hyn wedi bod yn ddifyr iawn, ac yn ffordd dda i breswylwyr gymryd rhan mewn ymarfer corff ysgafn.

Rydym wedi prynu dyfeisiau ar gyfer Gweithgareddau Therapi Hel Atgofion Rhyngweithiol. Mae'r rhain yn cynnwys sgrin cyffwrdd 24 modfedd sydd wedi'i dylunio'n arbennig ar gyfer pobl hŷn. Mae'r sgrin gyffwrdd ryngweithiol yn caniatáu i unigolion ymlacio drwy wrando ar gerddoriaeth, gwylio clipiau o archifau newyddion y BBC, edrych ar hen luniau a gwrando ar areithiau enwog. Mae'n helpu i ysgogi atgofion a dechrau sgyrsiau.

Un darn o dechnoleg unigryw a phoblogaidd sydd wedi cael ei gyflwyno i'r gwasanaethau yw morlo animatronaidd. Mae'r cefnogwr digidol hwn yn ymateb i gyffyrddiad a sain.

Mae'n cyfathrebu gyda'r dinesydd drwy symudiad, sain a gwres. Os yw tymheredd corff y dinesydd yn isel, bydd y cefnogwr digidol yn cynhesu ei hun. Mae hyn yn rhoi sicrwydd i unigolion sy'n byw â dementia.

Mae cyflwyno pensetiau rhith-wirionedd wedi rhoi cyfle i ddinasyddion weld rhai o'r prif atyniadau yng Ngogledd Cymru. Mae hefyd yn rhoi cyfle i ddinasyddion fynychu cyngherddau cerddoriaeth a phrofiadau theatr ar-lein, pan nad oes modd iddynt fynychu'r rhain yn bersonol.

Rydym wedi prynu 3 cerbyd trên RemPod ac mae'r rhain bellach wedi'u gosod mewn un cartref gofal a dau o'n Cyfleusterau Tai Gofal Ychwanegol. Mae hon yn ardal thematig yn yr adeilad sy'n atgynhyrchu ffenestr trên stêm cyfnod. Mae sgrin ffenestr sy'n creu'r ymdeimlad o eistedd ar gerbyd trên.

Rydym wedi cyflwyno sianel YouTube i'n gwasanaethau dydd ar gyfer pobl ag anableddau cymhleth, defnyddir camerâu 360 gradd, offer goleuo, trybeddau ac offer sain i greu ffilmiau rhith-wirionedd lleol i helpu preswylwyr i hel atgofion. Maent yn canolbwyntio ar fideos byr llawn gwybodaeth am sgiliau byw a choginio. Mae dinasyddion yn creu, addasu a serennu yn y fideos hyn.

# Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2021 - 2022

Rydym wedi gosod dau argraffydd 3D i greu dyluniadau 3D, a chaniatáu ar gyfer rhagor o greadigrwydd a mynediad at ddylunio a thechnoleg o fewn ein gwasanaethau dydd. Yn ogystal â hyn, rydym wedi derbyn torrwr laser. Bydd y torrwr laser yn rhoi cyfle i ddefnyddwyr y gwasanaeth dydd gymryd rhan yn y broses ymarferol o ddylunio a chreu cynnyrch pren.

**Tîm Ar Ymyl Gofal - Gwasanaethau Oedolion**

Mae Tîm Ar Ymyl Gofal newydd y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion yn cyd-fynd â'n gweledigaeth strategol am ffordd effeithiol a modern o ddarparu cefnogaeth gofal cymdeithasol sy'n cryfhau gwytnwch unigol a chymunedol.

Mae'r Tîm Ar Ymyl Gofal yn unigryw ac wedi'u lleoli o fewn Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Oedolion, ac yn recriwtio, hyfforddi a lleoli gwirfoddolwyr. Mae'r Rheolwr yn weithiwr cymdeithasol cymwys ac yn fentor sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Mae dau Gydlynydd Ar Ymyl Gofal yn cefnogi'r Rheolwr i ddarparu'r prosiect.

Mae'r Tîm wedi dangos sut gall y prosiect gael effaith gadarnhaol ar y llwybrau gofal cynlluniedig, drwy helpu i ryddhau dinasyddion o'r ysbyty gan weithio'n agos gyda'n Timau Adnoddau Cymunedol i ddarparu dull 'tîm o amgylch yr unigolyn' a lleihau'r galw ar gyfer gofal traddodiadol cynlluniedig.

Mae gennym nifer o enghreifftiau o wirfoddolwyr yn darparu seibiant i ofalwyr, ac rydym yn paru'r sawl sy'n derbyn gofal gyda gwirfoddolwyr mewn modd gofalus a thrylwyr. Mae hyn wedi arwain at brofiad ystyrlon a boddhaol i'r gofalwr a'r sawl sy'n derbyn gofal. Rydym wedi helpu dinasyddion i barhau ar ymyl gofal wedi'i gynllunio a heb ei gynllunio, megis Gwasanaethau Iechyd Meddwl, cartrefi gofal a gofal cartref traddodiadol, ond rydym wedi llwyddo i gadw dinasyddion yn y gymuned.

# Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2021 - 2022

Er ein bod yn dod allan o'r pandemig Covid-19 yn araf deg, gyda chyfyngiadau'r cyfnod clo'n llacio a'r cynllun ffyrlo'n dod i ben, mae'r prosiect yn parhau i ddenu rhagor o wirfoddolwyr. Mae gennym oddeutu 70 o wirfoddolwyr ac mae nifer yr atgyfeiriadau'n parhau i gynyddu.

Mae'r Cydlynydd Presgripsiynu Cymdeithasol / Swyddog Monitro Ar Ymyl Gofal hefyd yn cefnogi gyda darpariaeth weithredol, ond eu prif ffocws yw monitro a chryfhau cysylltiadau gyda Mentrau Cefnogaeth Arloesol a Arweinir gan y Gymuned megis y Gwasanaeth Llywio a Rhagnodi Cymunedol. Mae'r Llyw-wyr Cymunedol yn bartneriaid allweddol ar gyfer recriwtio gwirfoddolwyr a nodi dinasyddion a fyddai'n elwa. Maent hefyd yn cysylltu dinasyddion gydag adnoddau cymunedol lleol eraill a allai eu cefnogi.

Mae paru gwirfoddolwyr gyda dinasyddion yn hanfodol i lwyddiant y prosiect hwn a'r pwynt dechrau bob tro yw Sgwrs Beth sy'n Bwysig effeithiol, sy'n seiliedig ar gryfderau ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau.

<u>Astudiaethau Achos</u>

Mae Mrs X yn derbyn cefnogaeth gan ei gwirfoddolwr o leiaf unwaith yr wythnos. Mae'r gwirfoddolwr yn helpu Mrs X i barhau gyda dosbarthiadau lleferydd ac iaith, talu biliau, anfon rhestrau siopa dros e-bost at ferch Mrs X sy'n byw i ffwrdd, a chwarae Yahtzee gyda'i gilydd. Mae ei gwirfoddolwr hefyd yn helpu'r fam a'r ferch gyda siopa dillad ar-lein (sy'n aml yn cynnwys dychwelyd eitemau i'r swyddfa bost). Mae gofalwyr yn teimlo eu bod dan lai o straen yn sgil y gwmnïaeth a'r gefnogaeth a ddarperir gan y gwirfoddolwr.

Mae'n bwysig nodi bod y gwirfoddolwr yn ofalwr ei hun - mae hi'n dweud bod hyn yn cynnig newid braf iddi o'i rôl sylweddol yn ei chartref.

Mae Miss D yn ei 20au cynnar ac wedi bod ag anghenion iechyd corfforol drwy gydol ei hoes. Mae hi a'i mam yn agos iawn, ac weithiau mae wedi bod yn anodd i'r ddwy deimlo'n hyderus i wneud pethau'n annibynnol. Mae ein gwirfoddolwr (myfyriwr Hyfforddai Gwaith Cymdeithasol) wedi bod yn mynd â Miss D i gaffi/bar bywiog yn y dref, ac wedi ei chefnogi i ymuno â Chlwb Merched y mae hi'n ei fynychu'n annibynnol, ac mae hi wirioneddol yn mwynhau'r gweithgareddau a gynigir. Mae'r fam yn hapusach yn datblygu ei bywyd cymdeithasol ei hun eto gan fod ei merch bellach yn fwy annibynnol.

Mae cydweithio agos gydag ymarferwyr yn Nhimau Adnoddau Cymunedol, timau Anableddau Cymhleth ac Iechyd Meddwl Sir Ddinbych yn darparu 'dull tîm o amgylch yr unigolyn'.

Mae gan y tîm fynediad at staff AD Sir Ddinbych i sicrhau proses gadarn ar gyfer cefnogaeth, hyfforddiant a gwaith annibynnol i wirfoddolwyr.

Nod y Tîm Ar Ymyl Gofal yw rheoli'r galw a sicrhau bod y gwasanaethau a gynlluniwyd gan y Tîm Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn gynaliadwy, drwy ddefnyddio egni a thalentau pobl leol a'u mudo gyda'r gefnogaeth a ddarperir.

Canolbwyntir ar gyflawni'r canlyniad cywir drwy baru'r gwirfoddolwr gyda'r dinesydd yn effeithiol. Trefniant paru sy'n hyrwyddo lles y gwirfoddolwr a'r dinesydd ac yn llwyddo i ddarparu cefnogaeth emosiynol ac ymarferol, gan fynd i'r afael â phroblemau mewn perthynas ag unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol ac atal methiant gofalwyr rhag arwain at dderbyniadau posibl i'r system ofal.

Gweler hanes Bethan isod:

Mae gan Bethan, sy'n 20 oed, berthynas gref gyda'i mam. Mae cymhlethdod y profiadau iechyd mae'r fam a merch wedi'u rhannu ers i Bethan fod yn blentyn wedi gwneud y ddwy'n arbennig o agos. Maent wedi sylweddoli, er bod sawl elfen gadarnhaol o'u cyd-ddibyniaeth, ei fod yn cyfyngu eu cyfeillgarwch a'u cyfleoedd unigol. Fe wnaeth y sawl a oedd yn atgyfeirio at y Tîm Ar Ymyl Gofal (sy'n meddu ar y sgiliau i gynnal sgyrsiau'n seiliedig ar gryfderau) helpu Bethan i ddeall ei sefyllfa a nodi beth oedd wedi gweithio'n dda a heb weithio cystal yn y gorffennol, o fewn yr atgyfeiriad.

Er mwyn nodi pariad llwyddiannus gyda gwirfoddolwr, fe wnaethom gymryd personoliaethau a phrofiad bywyd i ystyriaeth. Roeddem yn ddigon ffodus i gael gwirfoddolwr a oedd hefyd yn astudio i fod yn weithiwr cymdeithasol. Yn ogystal â'i chymeriad brwdfrydig, caredig a chyfeillgar, roedd y gwirfoddolwr yn cynnig yr ansawdd ychwanegol i fodloni anghenion unigryw Bethan. Mae Bethan a'i gwirfoddolwr wedi mwynhau coffi a chinio mewn bwytai a siopau coffi lleol, ac wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau newydd gyda'i gilydd. Mae Bethan bellach yn mynychu Grŵp Merched lleol bob wythnos ar ei phen ei hun. Cadarnhawyd yn ystod galwad dilynol gyda Bethan ei bod wedi gwneud ffrindiau newydd a'i bod yn parhau i fwynhau ei diddordebau newydd.

Rydym yn credu y byddai Bethan yn 'llysgennad cymunedol' rhagorol ar gyfer y Pwynt Siarad neu'r bwrdd sgwrsio lleol ac rydym yn gobeithio trafod hyn gyda hi yn fuan. Mae mam Bethan bellach yn teimlo'n dawelach ei meddwl yn gwybod bod ei merch yn mwynhau ei hun gyda'i ffrindiau.

**Dyma rai pethau sydd eto i'w cwblhau**

| |
|---|
| Datblygu gwaith tîm Ar Ymyl Gofal Gwasanaethau Oedolion ymhellach i leihau arwahanrwydd cymdeithasol, unigrwydd, gwella iechyd a datblygu sgiliau annibyniaeth i ddinasyddion. |
| Datblygu darpariaeth sy'n cynnig llety priodol gyda chefnogaeth ddwys a pharhaus sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i Blant sy'n Derbyn Gofal sydd ag anghenion cymhleth iawn. |
| Parhau i adeiladu ar y gwaith a gwblhawyd hyd yma a datblygu Technolegau Cynorthwyol ymhellach i gynyddu mynediad a gwybodaeth o fewn Gwasanaethau Cymorth Cymunedol a'r gymuned. |

## e) Helpu pobl i ddatblygu'n ddiogel a chynnal perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol iach

**Dyma ddywedom ni y byddwn yn ei wneud**

- Parhau i weithio ar ddatblygu Sir Ddinbych i fod yn Gyngor Sy'n Deall Dementia.
- Parhau i adolygu a datblygu gwasanaethau sy'n bodloni anghenion gofalwyr yn Sir Ddinbych
- Parhau gyda datblygiad Bwthyn y Ddôl a'r dull amlddisgyblaethol gyda phlant ar ymyl gofal

**Dyma rydym wedi'i wneud a'i gyflawni**

| |
|---|
| Dychwelodd 18 o blant adref o gartrefi gofal yn ystod y flwyddyn. Ffigwr y llynedd oedd 16 o blant. |
| Ar 31 Mawrth 2022, roedd 19 o blant sy'n derbyn gofal wedi bod mewn tri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn. Ffigwr y llynedd oedd 12 o blant. |

Sefydlwyd **Gwasanaeth Teuluoedd Integredig Lleol** i gynnig cefnogaeth gynnar wedi'i thargedu i deuluoedd sy'n cael trafferth â rheoli anawsterau emosiynol ac ymddygiadol.

Mae'r tîm yn gweithio gyda theuluoedd ac yn cynnwys Llyw-wyr Lles, Therapyddion Galwedigaethol, Arbenigwyr Cefnogi Ymddygiad a Seicolegydd. Maent yn gweithredu fel ffynhonnell wybodaeth a chefnogaeth i helpu i ddatblygu a gweithredu cynlluniau ymddygiadol cadarnhaol a darparu ymgynghoriad arbenigol lle bo angen.

Mae'r tîm amlasiantaeth wedi datblygu dull gofal arbennig a dull partneriaeth i gefnogi teuluoedd yn Sir Ddinbych a Chonwy. Maent bellach yn weithredol ac yn gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc a'u teuluoedd.

Mae'r rhaglen hefyd wedi datblygu sgiliau 78 aelod o staff Awdurdod Lleol ac iechyd mewn therapïau y bydd y tîm yn eu defnyddio, mae hyn wedi annog dull cyffredin ac iaith a rennir, a darparu cysondeb ar draws asiantaethau a thimau partner.

Mae tîm amlasiantaeth **Bwthyn y Ddol** yn parhau i weithio gyda phlant a phobl ifanc sydd mewn perygl o fod angen derbyn gofal gan nad yw eu dynamig teuluol yn iach.

Datblygwyd y dull gofal drwy dîm amlasiantaeth gyda ffocws ar ofynion ac anghenion arbennig plant a phobl ifanc yn Sir Ddinbych a Chonwy. Mae'r dull arloesol hwn i fodel gofal sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ynghyd â'r ymarfer myfyriol a fabwysiadwyd gan y tîm, eisoes wedi arwain at ganlyniadau cadarnhaol gyda phlant / pobl ifanc yn cwblhau'r ymyrraeth ac yn aros yn eu cartref gyda theulu'n ddiogel.

### Cryfhau teuluoedd - Rhaglen Ar Ymyl Gofal y Gwasanaeth Plant

Mae'r Rhaglen Ar Ymyl Gofal yn rhan o Wasanaeth Therapiwtig y Gwasanaeth Plant ac yn anelu at:-

- Cefnogi teuluoedd i fynd i'r afael â'u problemau a gwneud newidiadau cadarnhaol a allai leihau'r risgiau ar gyfer eu plant, yn ogystal â'u helpu i wneud cyfraniad cadarnhaol at y gymuned lle maent yn byw.
- Darparu cymorth ddwys i deuluoedd diamddiffyn gyda phroblemau cymhleth amrywiol, lle mae / roedd posibilrwydd cryf o blentyn yn cael ei roi mewn gofal.
- Galluogi amgylchiadau plentyn i wella a datblygu sgiliau'r teulu er mwyn iddynt fedru cynnal eu gwelliannau eu hunain.

Mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio ar ddarparu cymorth therapiwtig i blant ar ymyl gofal a phlant sydd wedi profi gofal, gan gynnwys y rheiny sydd wedi cael eu mabwysiadu, gan leihau'r angen am gymorth fwy dwys. Dros uchafswm o 12 wythnos, mae'r tîm yn darparu cymorth ac ymyrraeth ymarferol i blant, pobl ifanc a theuluoedd yn ystod argyfyngau.

Mae plant Si Ddinbych sydd wedi cael eu hasesu gan eu Gweithwyr Cymdeithasol fel rhai ar lwybr i ofal preswyl neu faethu proffesiynol wedi derbyn ystod o ymyraethau drwy'r Gwasanaeth Therapiwtig. Mae hyn yn anelu at leihau'r risg o blant yn derbyn gofal, atal methiant mabwysiadu a dychwelyd plant gartref o ofal proffesiynol. Mae'r Tîm Therapiwtig yn parhau gyda Grŵp Rhianta i weithio'n uniongyrchol gyda rhieni plant a phobl ifanc sydd wedi'u hasesu fel rhai mewn perygl uchel o gam-fanteisio. Mae'r Ymarferwyr Therapiwtig yn defnyddio'r dull PACE (Natur Chwareus, Derbyn, Chwilfrydedd, Empathi). Y dull hwn yw'r prif fodel ar gyfer datblygu perthnasoedd a datrys trawma ac mae'n seiliedig ar theori ac ymchwil ymlyniad datblygiadol.

Mae'r tîm Anableddau Cymhleth o fewn Sir Ddinbych wedi cefnogi nifer o ddinasyddion i ymgysylltu gyda chyrsiau cydberthynas a pherthnasoedd Sparc a gaiff eu hariannu'n rhanbarthol drwy gyllid Trawsnewid a thrwy grantiau'r Gronfa Gofal Integredig.

Mae rhandai seibiant ac adfer ar gael i'w defnyddio yng Nghorwen, Rhuthun, Dinbych a Phrestatyn. Datblygwyd y rhain mewn partneriaeth gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a Thai Cymunedol Cyngor Sir Ddinbych, ac maent yn cynnig opsiynau seibiant ac adfer tymor byr hyblyg gyda neu heb ddarpariaeth gofal. Er gwaethaf yr ymyraethau yn sgil Covid-19, rydym wedi gweld graddfa meddiannu gyfartalog o 50% drwy gydol y 12 mis diwethaf.

<u>Astudiaeth Achos:</u> Roedd Mr R yn byw gyda'i fab a'i deulu ifanc ar ôl derbyn diagnosis o ddementia ac felly'n methu byw'n annibynnol, roedd y teulu'n cael trafferth bodloni ei anghenion gofal ac roedd y cartref yn orlawn. Daeth Mr R i'n rhandy adfer a seibiant dan Gynllun Gofal Ychwanegol ar gyfer seibiant brys gan nad oedd y teulu'n gallu ymdopi â'r gwaith gofal. Fel rhan o'r gefnogaeth a gynigwyd, rhoddwyd cynllun gofal a chymorth ar waith a darparwyd cefnogaeth ychwanegol mewn perthynas â thai i helpu Mr R gyda'i denantiaeth ei hun. Yn dilyn cyfnod byr o gefnogaeth, cynigwyd rhandy parhaol iddo o fewn Cyfadeilad Gofal Ychwanegol, parhawyd â'r cymorth tai am gyfnod i helpu Mr R i ymgartrefu yn ei gartref newydd. Mae Mr R bellach yn elwa o berthynas well gyda'i deulu ac yn derbyn y gefnogaeth a'r gofal rheolaidd sydd eu hangen arno i'w alluogi i fyw mor annibynnol â phosibl.

# Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2021 - 2022

Mae aseswyr gofalwyr yn mynychu cyfarfodydd fforymau cyfoedion yn Nhîm Adnoddau Cymunedol Gogledd Sir Ddinbych i drafod anghenion gofal a chymorth gofalwyr a chyflwyno eu cynigion ar gyfer comisiynu gofal a chefnogaeth i ofalwyr i'r Tîm Amlddisgyblaeth. Mae Llyw-wyr Cymunedol hefyd yn mynychu, ac mae hyn yn cefnogi trafodaethau sy'n canolbwyntio ar les a chanlyniadau gofalwyr.

Drwy Sir Ddinbych yn Gweithio, cynigir cefnogaeth mentor cyflogaeth i bob ffoadur sydd wedi setlo yn Sir Ddinbych. Fe'u hanogir i gael mynediad at gyfleoedd gwaith a gwirfoddoli. Mae hyn wedi arwain at dri o bobl yn cael mynediad at gyflogaeth â thâl a thri o bobl yn gwirfoddoli. Mae un unigolyn yn y broses o ymgeisio i fod yn brentis. Mae bob oedolyn ynghlwm â dosbarthiadau Saesneg fel Ail Iaith.

Mae Gwasanaethau Cefn Gwlad Sir Ddinbych wedi rhoi mynediad arbennig at wlâu rhandir uwch i deuluoedd ffoaduriaid eu defnyddio. Mae pum teulu'n defnyddio'r rhandiroedd hyn ar hyn o bryd, ac maent yn ganolbwynt ar gyfer gweithgareddau cymunedol ehangach ar gyfer teuluoedd ffoaduriaid ac wedi arwain at ddigwyddiadau coginio a theithiau dydd.

Mae Tŷ Pride yn brosiect byw â chymorth a ddarperir mewn partneriaeth gyda Thîm Atal Digartrefedd Sir Ddinbych, VIVA a Llamau. Maent yn darparu cefnogaeth hygyrch a seiliedig ar seicoleg i o leiaf 4 o bobl LGBTQ+ o fewn amgylchedd diogel er mwyn atal digartrefedd a hyrwyddo annibyniaeth barhaus. Yn wahanol i'r mwyafrif o brosiectau tai â chymorth, mae pwyslais ar addysg a chefnogaeth therapiwtig i'r teulu er mwyn sicrhau perthnasoedd iach a pharhaus lle bynnag y bo hynny'n bosibl.

**Dyma rai pethau sydd eto i'w cwblhau**

| |
|---|
| Gweithredu'r camau yn y Cynllun Gweithredu Cyflwr Gofal i adolygu a datblygu gwasanaethau sy'n bodloni anghenion gofalwyr yn Sir Ddinbych. |
| Parhau gyda datblygiad Bwthyn y Ddôl a'r dull amlddisgyblaethol gyda phlant ar ymyl gofal. |
| Datblygu egwyliau byr preswyl yn y sir a darpariaeth gofal brys i blant ag anghenion ac anableddau cymhleth o fewn Sir Ddinbych. |

## f) Gweithio gyda phobl a'u helpu i wella eu lles economaidd, i gael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n bodloni eu hanghenion

**Dyma ddywedom ni y byddwn yn ei wneud**

- Ymgorffori'r Llwybr Pobl Ifanc i Wasanaethau Ieuenctid
- Gweithio gyda phartneriaid i ganolbwyntio ar recriwtio i lwybrau gofal a gyrfaol ar gyfer pobl ifanc

**Dyma rydym wedi'i wneud a'i gyflawni**

| |
|---|
| Cyfanswm y bobl sy'n gadael gofal sydd wedi bod mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth am 3 mis yn olynol yn y: a) 12 mis ers gadael gofal oedd 5 a b) 13-24 mis ers gadael gofal oedd 5. |
| Roedd 9 o bobl sydd wedi gadael gofal wedi bod yn ddigartref yn ystod y flwyddyn o fewn 12 mis i adael gofal. |

Mae gwaith yn parhau i fynd rhagddo i annog pobl ifanc i ystyried gofal fel opsiwn gyrfaol. Er bod llawer o waith i'w wneud, rydym wedi llwyddo o fewn ein cartrefi gofal ein hunain i recriwtio rhywfaint o bobl ifanc. Roedd un unigolyn ifanc yn awyddus iawn i wneud gwaith gofal ond roeddent yn rhy ifanc i ymgymryd â'r rôl honno, ac felly fe'u cyflogwyd fel gweithiwr ategol yn y tymor byr. Unwaith y byddant yn 18 oed, byddant yn cael eu cefnogi i fod yn weithiwr gofal o fewn y lleoliad gofal.

Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae Gwasanaethau Plant wedi datblygu cysylltiadau agosach gyda thai a digartrefedd i wella cyfleoedd llety i bobl ifanc. Mae Gwasanaethau Ieuenctid hefyd wedi cyflogi Gweithiwr Ieuenctid a Gweithiwr Cymorth Digartrefedd i ymestyn y cynnig i bobl ifanc sy'n profi digartrefedd.

Gan gydweithio gyda'r 3 gwasanaeth, datblygwyd llwybr mwy cadarn i gefnogi'r rhai sy'n gadael gofal a phobl ifanc gydag anghenion cymhleth. Mae gwaith yn parhau, a dros y 12 mis nesaf, rydym yn gobeithio comisiynu tai â chymorth arbenigol i gefnogi rhai o'n pobl ifanc mwyaf diamddiffyn.

Mae prosiect ar y cyd a ddarperir drwy NEWCIS a Chyngor ar Bopeth, Sir Ddinbych wedi bod yn darparu gwybodaeth a chyngor yn ogystal â chefnogi gofalwyr di-dâl, yn arbennig y rhai mwyaf unig sy'n byw mewn ardaloedd gwledig, i gael mynediad at fuddion a chwblhau gwiriadau cynyddu incwm a gwasanaethau eraill yn ôl yr angen.

Mae staff y Tîm Adnoddau Cymunedol yn gwneud atgyfeiriadau rheolaidd at Gyngor ar Bopeth Sir Ddinbych a gwasanaethau eraill i gefnogi pobl hŷn i gael mynediad at y budd-daliadau y maent yn gymwys iddynt. Maent hefyd yn cefnogi ein dinasyddion i gael mynediad at ystod o gynlluniau, megis Cartrefi Clyd, Gofal a Thrwsio ac eraill i gefnogi pobl hŷn a gofalwyr i aros yn eu cartrefi eu hunain.

Ym mis Chwefror 2022, agorwyd Awel y Dyffryn, Cyfleuster Tai Gofal Ychwanegol newydd yn Ninbych. Symudodd y tenantiaid cyntaf i'r cyfleuster, mae rhai ohonynt angen gofal, ac eraill yn symud i eiddo lle gallant barhau i fod yn annibynnol, gyda chymorth wrth law lle bo angen. Mae'r datblygiad yn bartneriaeth rhwng Cyngor Sir Ddinbych a Grŵp Cynefin.

**Dyma rai pethau sydd eto i'w cwblhau**

| |
|---|
| Comisiynu llety â chymorth arbenigol i bobl ifanc ag anghenion cymhleth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn darparu cefnogaeth barhaol i liniaru'r risg o'r unigolyn ifanc yn disgyn i gylched o ddigartrefedd yn y dyfodol. |
| Gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo gofal cymdeithasol fel cyfle gyrfaol drwy ddatblygu ein trefniadau recriwtio i ofal a'n llwybrau gyrfaol i bobl ifanc. |
| Parhau i adolygu a moderneiddio ein cynnig o wasanaethau dydd a gwaith i bobl ag anableddau cymhleth. |

## 5. Sut rydym yn cyflawni ein gwaith

### a) Ein gweithlu a sut rydym yn eu cefnogi yn eu rolau proffesiynol

Mae recriwtio a chadw staff wedi bod yn broblem sylweddol o fewn Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion a Phlant ers y pandemig Covid-19, ond yn arbennig dros y 12 mis diwethaf. Mae hyn yn cynnwys staff proffesiynol a staff gofal rheng flaen.

Mae recriwtio i swyddi gofal yn un o brif flaenoriaethau Sir Ddinbych ac yn ystod y flwyddyn, rydym wedi sefydlu grŵp corfforaethol i fynd i'r afael â'r rhwystrau i recriwtio gweithwyr gofal.

Rydym wedi cyflwyno nifer o fentrau i hyrwyddo gofal fel gyrfa - gan alinio ein hunain gyda'r Ymgyrch Gofalwn, mae Sir Ddinbych bellach â brand recriwtio gofal "Gwnewch i Bobl Wenu" ac mae rhai o'r ffrydiau'n cynnwys:

- Cefnogaeth Adnoddau Dynol arbennig i helpu gyda recriwtio a chadw staff
- Tudalen We Gofal Cyngor Sir Ddinbych
- Hysbysebu ar gerbydau Cyngor Sir Ddinbych
- Pamffled Recriwtio Gofal
- Cardiau busnes
- Hysbysebu ar gotiau staff
- Defnyddio platfform cyfryngau cymdeithasol TikTok i ymgysylltu â chymaint o bobl â phosibl.
- Presenoldeb rheolaidd gan swyddog AD a staff o wasanaethau darparwyr mewn digwyddiadau gyrfaol.
- Mae Rheolwr Gwasanaeth a Rheolwr Tîm CSDd yn aelodau o fwrdd ymgynghorol cyflogwyr coleg lleol.

Datblygwyd 5 Swydd Gofal Arweinyddol newydd i ddatblygu llwybr gyrfaol yn y maes gofal, bydd y rolau hyn yn pontio'r bwlch rhwng cyfrifoldebau goruchwyliol a darpariaeth gofal, a fydd yn ein caniatáu i ddatblygu ein rheolwyr ein hunain i'r dyfodol.

Mae'r holl swyddi bellach wedi'u penodi i Gyfleusterau Cartrefi Gofal a Thai Gofal Ychwanegol. Mae cysylltiadau cryf rhwng y Tîm Ar Ymyl Gofal a recriwtio; lle caiff gwirfoddolwyr eu cefnogi a'u hannog i sicrhau cyflogaeth.

Astudiaeth Achos: Roedd Ffion yn 17 oed pan gyflwynodd hi gais i wirfoddoli gyda'r tîm Ar Ymyl Gofal. Roedd hi'n awyddus iawn i weithio yn y maes gofal ac felly cynigwyd cyfle iddi wirfoddoli yn un o'n cartrefi gofal. Wrth i'w hyder ddatblygu, cynigwyd rôl ddomestig i Ffion o fewn y cartref, roedd hi wrth ei bodd ac yn aelod gwerthfawr o'r tîm gofal.

Mae darparu cefnogaeth barhaus i bob aelod o'n staff o fewn y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol a Phlant wedi bod yn hollbwysig gan eu bod wedi parhau i ddarparu lefel uchel o gefnogaeth i ddinasyddion a theuluoedd ar draws y sir. Mae hyn yn cynnwys cynnal 33 o wahanol ddigwyddiadau hyfforddiant a lles i staff, drwy gyllid Cronfa Ddysgu Undebau Cymru (gyda chefnogaeth gan undebau Unison, Unite a GMB). Ym mis Medi 2021, lansiodd ein tîm AD Fodiwl E-ddysgu Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl sydd ar gael i bob aelod o staff ac yn darparu ymwybyddiaeth sylfaenol o beth mae iechyd meddwl yn ei olygu a beth yw'r arwyddion a'r symptomau ynghyd â rhywfaint o wybodaeth am sut i gyfeirio pobl at gymorth.

Yn ystod 2020 - 2021, roedd gostyngiad yn nifer y bobl a oedd yn absennol yn sgil salwch a gostyngiad yn nifer y dyddiau absennol. Fodd bynnag, yn 2021 - 2022, mae cynnydd wedi bod yn nifer y staff sy'n absennol yn sgil salwch yn ogystal â nifer y dyddiau yr oeddent yn absennol o'u gwaith. Ar y cyfan, mae nifer o staff yn dioddef o effeithiau'r pandemig, gan gynnwys cynnydd mewn llwyth gwaith a'r unigrwydd o weithio o gartref. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gefnogi staff i ddychwelyd i swyddfeydd am 1 neu 2 ddiwrnod yr wythnos, yn ogystal â pharhau i fedru gweithio o gartref.

Mae ein Tîm Datblygu'r Gweithlu wedi parhau i ddarparu hyfforddiant, yn bennaf drwy ddysgu ar-lein, fodd bynnag, maent wedi ail-ddechrau cynnal rhywfaint o sesiynau hyfforddiant wyneb yn wyneb mewn modd diogel gan fodloni canllawiau Covid-19 Llywodraeth Cymru, roedd hyn yn cynnwys Codi a Symud yn Gorfforol a phynciau yn ymwneud ag iechyd megis Diabetes ac Epilepsi.

Mae'r Tîm Datblygu'r Gweithlu hefyd ynghlwm â -

- Lansio tudalennau we newydd, cyfeirio staff at ystod o ddeunyddiau ymchwil a dysgu ar-lein. Mae hyn yn rhan o'n strategaeth, a'r cam nesaf yw agor y wefan ymhellach i Ofalwyr Maeth a'r sector gofal cymdeithasol ehangach er mwyn iddynt fedru cael mynediad at wybodaeth am gyfleodd dysgu a datblygu ar gyfer y sector ac adnoddau arbennig i'w cefnogi yn eu rolau.
- Rydym wedi cyflwyno Community Care Inform (CCInform) i'r Gwasanaethau Addysg a Phlant a'r Gwasanaethau Cymorth Cymunedol. Mae'r adnodd hwn yn galluogi gweithwyr i gael mynediad at ystod eang o erthyglau ymchwil, diweddariadau cyfreithiol a chanolfannau ymarfer sy'n hyrwyddo ffyrdd newydd o weithio. Fel rhan o'r pecyn, rydym yn gweithio mewn partneriaeth gyda CCInform i greu tudalennau arbennig ar gyfer Sir Ddinbych er mwyn galluogi gwasanaethau Oedolion a Phlant i hyrwyddo ac amlygu negeseuon neu themâu ymarfer allweddol i'w datblygu.
- Rydym wedi lansio ACEducation i'w ddefnyddio gyda Gofalwyr Maeth i gefnogi ein hymrwymiad i gyflwyno'r Fframwaith Methu Cenedlaethol - Dysgu a Datblygu. Bydd hyn yn galluogi gofalwyr maeth i gael mynediad at hyfforddiant o bell ar amser sy'n gyfleus iddyn nhw. Bydd hyfforddiant wyneb yn wyneb yn parhau i Ofalwyr Maeth, ond ar raddfa llawer is sy'n rhoi cwmpas i ni ystyried costau ac effaith absenoldebau, a oedd yn dechrau dod yn broblem.

- Cefnogodd Datblygu'r Gweithlu'r prosiect Hedyn gyda Gweithwyr Gofal Cymdeithasol. Gan gydweithio gyda'r Rheolwr Datblygu Celfyddydau Cymunedol o Hamdden Sir Ddinbych, cyflwynwyd cais llwyddiannus i'r Rhaglen HARP (Iechyd, Celfyddydau, Ymchwil, Pobl) a gaiff ei hariannu gan Gyngor Celfyddydau Cymru a Nesta gyda Lab Prifysgol Caerdydd i weithio ar hyrwyddo lles gweithwyr Gofal Cymdeithasol drwy hyrwyddo'r Celfyddydau.

  > "Mae Covid-19 wedi cael effaith sylweddol ar ein staff, o ganlyniad i faterion megis **cynnydd mewn llwyth gwaith, trawma** a **straen;** drwy weithio i gefnogi eu hiechyd meddwl, gallwn ddangos ein bod wir yn gwerthfawrogi eu gwaith……"

- Fe wnaeth y Tîm Datblygu'r Gweithlu arwain y gwaith gwerthuso ar ddiwedd y prosiect.

  > "Mi wnes i fwynhau'r tasgau'n fawr. Roedd yn braf cael rhywfaint o amser i mi fy hun. Mae gweithio mewn cartref gofal yn ystod y pandemig dros y deunaw mis diwethaf wedi bod yn anodd. Mae wedi bod yn ddihangfa dda iawn yn ystod cyfnod anodd"

- Roedd lleoliadau myfyrwyr ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol yn arbennig o heriol yn 2021-22, ond gyda chefnogaeth gan ein cydweithwyr ar draws Gwasanaethau Gofal Gweithredol a Mewnol, llwyddom i ddatblygu lleoliadau a oedd yn bodloni'r gofynion ac yn diwallu'r diffyg.

  Roedd cyfleoedd hefyd i fyfyrwyr Gwaith Cymdeithasol gymryd rhan mewn prosiectau newydd megis prosiectau cyfarpar Dementia (Paro seal, RITA ac ati) a gafodd eu cyflwyno yn y lleoliadau priodol gan adrodd ar ddefnydd.

- Cyflwynom gais llwyddiannus ar gyfer cyfres o Chromebooks a fydd ar gael i'w defnyddio'n fuan yn ein hystafell hyfforddiant ym Morfa Clwyd, y Rhyl. Bydd y rhain yn cefnogi mynediad at gyfleoedd dysgu ar-lein ac yn ein galluogi i helpu gyda'r broses barhaus o gofrestru staff allweddol gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.

### Mwy Na Geiriau

Lansiom ein gwefan Gweithlu Gofal Cymdeithasol eleni sy'n cynnwys adran ar 'Ddefnyddio'r Gymraeg mewn gofal'. Mae'r wefan yn cynnwys gwybodaeth am adnoddau amrywiol i annog, helpu a chefnogi staff i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg, gan gynnwys dolenni ac adnoddau i hyrwyddo'r Gymraeg o fewn gofal cymdeithasol a gwybodaeth am y Cynnig Gweithredol a Mwy Na Geiriau. Rydym hefyd wedi cynnwys gwybodaeth am argaeledd adnoddau 'Iaith Gwaith' am ddim i nodi staff a dysgwyr Cymraeg.

# Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2021 - 2022

Yn ystod 2021 - 22, darparodd aelod o dîm y gweithlu gyflwyniad ar gyfer Gofal Cymdeithasol Cymru am y gefnogaeth sydd ar gael i staff gofal ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg. Mae tîm y gweithlu hefyd wedi gweithio gyda Gyrfa Cymru i ddarparu cyflwyniadau i ddisgyblion blwyddyn naw am 'ddefnyddio'r Gymraeg mewn gofal'.

Rydym wedi buddsoddi mewn cyrsiau Cymraeg ar gyfer gofal cymdeithasol ac mae llefydd ar gael i ddarparwyr mewnol ac allanol sy'n gweithio ar draws gwasanaethau Oedolion a Phlant. Roedd y rhain yn cynnwys llyfr gwaith a chwrs blas ar y Gymraeg byr ar-lein, a chwrs ar-lein sy'n addas i staff sy'n deall y Gymraeg ar lafar ond nad ydynt yn ddigon hyderus i siarad Cymraeg. Rydym hefyd wedi comisiynu cwrs ar-lein, wedi'i anelu at helpu staff gofal ar draws gwasanaethau Oedolion a Phlant i ddatblygu'r sgiliau i gwrdd a chyfarch y cyhoedd yn Gymraeg a chyflawni'r Cynnig Gweithredol. Mae staff sy'n newydd i'r adran yn derbyn cyflwyniad ynghylch 'Mwy na Geiriau' a'r Cynnig Gweithredol fel rhan o'u cyflwyniad cynefino.

Yn ogystal â hynny, rydym wedi cyflwyno RITA (gweithgareddau therapi hel atgofion rhyngweithiol) mewn Cartrefi Gofal a chyfleusterau gofal ychwanegol. Fe wnaethom drafod y cynnwys gyda'r cwmni a sicrhau bod lluniau o atgofion lleol ar gael. Roedd rhaglenni teledu, barddoniaeth ac emynau Cymraeg hefyd wedi'u cynnwys. Mae'r adborth wedi bod yn gadarnhaol iawn.

Yn ystod 2021 - 22, rydym hefyd wedi hyrwyddo digwyddiadau megis yr 'Ymgyrch Defnyddiwch eich Cymraeg', 'Dydd Miwsic Cymru' a 'Dydd Shwmae Su'mae Day'. Ym mis Rhagfyr, cynhaliwyd ymgyrch Cenedlaethol i hyrwyddo 'Diwrnod Hawliau'r Gymraeg' ac amlygwyd tri chydweithiwr o'r Gwasanaethau Cymorth Cymunedol i ddathlu eu gwaith yn defnyddio eu Cymraeg gyda phreswylwyr. Rhannwyd eu straeon fel rhan o'r ymgyrch drwy rwydwaith cyfryngau cymdeithasol y cyngor.

O fewn y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol, rydym hefyd yn anelu at sicrhau, fel rhan o'r trefniadau ail-leoli i wasanaethau gofal a sefydlwyd mewn ymateb i Covid-19, bod gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg yn cael eu paru gyda dinasyddion y mae arnynt eisiau cymorth drwy gyfrwng y Gymraeg.

Rydym yn parhau i hyrwyddo ymgysylltiad dinasyddion sydd wedi'u hamddifadu o'u rhyddid, gyda'r rheiny sy'n destun Awdurdodiad Colli Rhyddid ac sydd wedi nodi iaith ddewisol ar gyfer sgwrsio, rydym yn trefnu i Asesydd Lles Gorau sy'n siarad Cymraeg gynnal eu hasesiad er mwyn cefnogi eu hymgysylltiad lle bynnag y bo modd.

Pan fydd rhywun yn ffonio i wneud atgyfeiriad neu geisio cyngor, mae’r Gwasanaeth Porth yn cynnig yr opsiwn i alwyr siarad â rhywun yn Gymraeg.

Rydym yn cadw rhestr gyfredol o staff o fewn y Gwasanaeth Plant sy’n siaradwyr Cymraeg rhugl / cymedrol. Mae’r rhestr hon yn helpu gydag unrhyw ymholiadau gan staff nad ydynt yn siarad Cymraeg ac yn nodi Gweithwyr Cymdeithasol sy’n siarad Cymraeg i siarad gyda phlant / pobl ifanc, rhieni a gweithwyr proffesiynol. Mae Ffurflenni Atgyfeirio’n ddwyieithog ac mae cwestiwn am iaith ddewisol wedi’i gynnwys. Bydd yr iaith ddewisol yn cael ei chofnodi ar PARIS.

Atgoffir staff yn rheolaidd o ofynion Safonau’r Iaith Gymraeg. Mae negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol yn ddwyieithog ac mae ffurflenni adborth sy’n ceisio barn yn ddwyieithog.

Os yw rhieni’n dymuno i Gynhadledd Amddiffyn Plant gael ei chynnal yn Gymraeg, gall yr uned Diogelu ac Ansawdd Ymarfer ddefnyddio Cadeirydd sy’n siarad Cymraeg o awdurdod lleol arall.

Mae Mind of My Own yn blatfform ar-lein sy’n galluogi plant a phobl ifanc sy’n gweithio gyda Gwasanaethau Addysg a Phlant Sir Ddinbych i ymgysylltu gyda'u gweithiwr a rhannu eu safbwyntiau ynglŷn â’r gofal maent yn ei dderbyn, eu pryderon a’u llwyddiant yn ddwyieithog.

## b) Ein hadnoddau ariannol a sut rydym yn cynllunio ar gyfer y dyfodol

Cyflwynir adroddiadau misol ar yr alldro ariannol i’r weithrediaeth sy’n rhagfynegi’r sefyllfa diwedd blwyddyn. Cyfeirir at eithriadau neu bwysau yn yr adroddiadau, ynghyd â chamau lliniaru. Pennir y gyllideb flynyddol yn dilyn proses hir o adolygu pwysau ac arbedion ar draws yr holl wasanaethau ac ymgysylltu ag aelodau etholedig ac eraill fel rhan o’r broses.

Yn y tymor canolig, mae’r cyngor yn dilyn Cynllun Ariannol Tymor Canolig treigl dros dair blynedd sy’n rhoi amcangyfrif o sefyllfa ariannol y cyngor dros y cyfnod ac yn cynnwys amcangyfrifon, drwy weithio gyda gwasanaethau, o arbedion sy’n ofynnol neu anghenion am gyllid ychwanegol. Roedd y broses gynllunio dymor canolig hon wedi helpu i ganfod a diogelu, drwy gyllideb y Cyngor, cyllid ychwanegol yn 2020-21. Mae hyn wedi helpu i gefnogi pwysau cynyddol yn sgil chwyddiant ffioedd gofal blynyddol a chostau cynyddol llety digartrefedd yn y gwasanaethau plant (£1.5 miliwn) a gofal cymdeithasol i oedolion (£2.6 miliwn).

# Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2021 - 2022

Mae cynllunio ariannol mewnol prif ffrwd yn digwydd yn fisol yng nghyfarfodydd timau arwain/ rheoli'r Gwasanaeth. Canolbwyntir ar fonitro perfformiad a'r sefyllfa ariannol yn y meysydd sydd o dan y pwysau mwyaf. Mae swyddogion cyllid y Gwasanaeth hefyd yn cwrdd yn rheolaidd â Phenaethiaid Gwasanaeth a Thîm Gweithredol y Rheolwyr.



## c) Ein gwaith partneriaeth, arweinyddiaeth wleidyddol a chorfforaethol, llywodraethu ac atebolrwydd

Mae cydweithio gydag ystod eang o bartneriaid yn hanfodol ar gyfer darparu ein gwasanaethau statudol yn llwyddiannus yn ogystal â'r gwaith atal ac ymyrraeth gynnar sy'n mynd rhagddo i gefnogi'r unigolion a'r teuluoedd hynny i'w rhwystro rhag cael mynediad at wasanaethau statudol.

Ar lefel weithredol, rydym yn gweithio gyda'n hawdurdodau lleol cyfagos ar fentrau a phrosiectau ar y cyd megis Bwthyn y Ddol gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac rydym yn gweithio'n agos gyda Chyngor Sir y Fflint i gynhyrchu system ariannol newydd i gefnogi ein tîm asesu o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn bartner allweddol ar gyfer darparu gofal cymdeithasol ac iechyd di-dor ac er ein bod wedi sefydlu Timau Adnoddau Cymunedol, sy'n cynnwys staff iechyd a gofal cymdeithasol, rydym ar y cyd yn adolygu ymarfer yn rheolaidd, ac yn datblygu a gwella gwasanaethau a gaiff eu darparu gan y timau hyn. Agorwyd Tîm Adnoddau Cymunedol Prestatyn yn swyddogol ym mis Ebrill 2021 a dathlwyd blwyddyn ers ei sefydlu ar 28 Ebrill 2022.

# Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2021 - 2022

Mae'r Timau Adnoddau Cymunedol yn gydran greiddiol o ddatblygu'r clwstwr gyda Gofal Sylfaenol a BIPBC yng nghyfarfodydd partneriaeth Sir Ddinbych, gan ddarparu'r trosolwg a'r cyfeiriad strategol ar gyfer gwasanaethau.

Mae Meddygon Teulu bellach yn bartneriaid darparu allweddol o fewn Timau Adnoddau Cymunedol ar draws Sir Ddinbych ac wedi cytuno ar gyllid ar gyfer rôl Cydlynydd Hyrwyddo Iechyd i gefnogi ymgyrchoedd a negeseuon hyrwyddo iechyd wedi'u targedu ar draws gofal cymdeithasol iechyd a'r trydydd sector. Y nod yw gwella canlyniadau iechyd a lles i oedolion yng Ngogledd Sir Ddinbych.

Datblygwyd Memorandwm o Ddealltwriaeth rhwng gwasanaethau atal digartrefedd a Thimau Adnoddau Cymunedol i wella a symleiddio atgyfeiriadau a threfniadau cydweithio er mwyn atal digartrefedd yn y boblogaeth hŷn. Mae'r memorandwm ar ffurf drafft ar hyn o bryd, ond gobeithiwn y bydd yn cael ei gytuno'n fuan.

O fewn ein Gwasanaeth Plant, mae cydweithwyr iechyd yn bartneriaid allweddol yn y broses o ddarparu gwasanaethau megis Dechrau'n Deg, ac mae'r tîm darparu'n cynnwys cyfuniad o staff iechyd gan gynnwys bydwragedd ac ymwelwyr iechyd a gweithwyr cefnogi teuluoedd yr awdurdod lleol a nyrsys meithrin cymunedol.

Mae cydweithwyr iechyd hefyd wedi'u hintegreiddio o fewn ein gwasanaethau Therapiwtig a Phlant Sy'n Derbyn Gofal.

Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd gyda Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc PBC i adolygu amseroedd aros achosion cymhleth.

Drwy ein partneriaeth gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a PBC, rydym yn darparu'r Gwasanaeth Teuluoedd Integredig Lleol yn llwyddiannus gan gynnig cefnogaeth gynnar i deuluoedd sy'n cael trafferth â rheoli ymddygiad heriol ac anarferol.

Mae gweithio mewn partneriaeth gyda chydweithwyr iechyd, yr heddlu ac ystod o ddarparwyr yn rhan hanfodol o ddiogelu plant ac oedolion ac rydym yn bartneriaid hanfodol ar Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru. Caiff hyn ei gynnal yn ystod y cam ymholi, cyfarfodydd strategaeth, cynadleddau achosion amddiffyn oedolion a thrafodaethau/cyfarfodydd strategaeth.

Mae ein partneriaid Trydydd Sector yn eang ac yn amrywiol ac yn chwarae rhan allweddol yn cefnogi rhai o'n dinasyddion mwyaf diamddiffyn ers y pandemig Covid-19 ym mis Mawrth 2020.

# Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2021 - 2022

Gan adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd a'r adborth gan ddinasyddion, mae llawer o'r gwaith hwn wedi parhau ac mae'r berthynas gyda nifer o'n partneriaid o'r sector gwirfoddol wedi cryfhau yn ystod y cyfnod hwn. Er enghraifft, mae Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych yn ein helpu i weinyddu Grant Unigrwydd ac Arwahanrwydd Cymdeithasol Llywodraeth Cymru ac yn bartner allweddol yn ein gwaith i gefnogi'r dinasyddion hynny gyda Dementia yn ogystal â'u teuluoedd a'u gofalwyr.

Comisiynir Sefydliadau Trydydd Sector i ddarparu ystod o wasanaethau ar draws gwasanaethau oedolion a phlant. Er enghraifft; rydym yn comisiynu Barnado's i ddarparu ein Gwasanaeth Ymgynghori Personol i'r rhai sy'n gadael gofal nes iddynt droi'n 25 oed, ac mae'r Ymgynghorwyr Personol hyn yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i'r bobl ifanc fel rhan o'u Cynllun Llwybr.

Mae Age Connects a'r Groes Goch Brydeinig yn darparu ein Gwasanaeth Llyw-wyr Cymunedol, gan ymgysylltu gyda, a chefnogi, oedolion diamddiffyn ar draws Sir Ddinbych, a helpu pobl i gael mynediad at weithgareddau cymunedol i fynd i'r afael ag arwahanrwydd cymdeithasol ac unigrwydd.

Mae'r cyngor wedi rhoi trefniadau cadarn ar waith ar gyfer llywodraethu mewnol er mwyn rheoli Gwasanaethau Cymorth Cymunedol a Gwasanaethau Plant ac Addysg yn effeithiol.



# Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2021 - 2022

Cyflwynir adroddiadau i wahanol Bwyllgorau Craffu yn ystod y flwyddyn i alluogi Aelodau Etholedig i graffu ar bolisi a pherfformiad mewn perthynas â gwasanaethau cymdeithasol a monitro cynnydd unrhyw gamau sy'n ofynnol i ymateb i adroddiad blynyddol y Cyfarwyddwr neu adroddiad blynyddol AGC.

Mae gennym broses hefyd sydd wedi'i hirsefydlu ar gyfer herio perfformiad gwasanaethau, lle mae pob Pennaeth Gwasanaeth yn cael ei herio'n flynyddol ar feysydd fel perfformiad y gwasanaeth ac arweinyddiaeth.

Mae'r panel ym mhob cyfarfod ar gyfer herio perfformiad gwasanaethau'n cynnwys y Prif Weithredwr; Cyfarwyddwyr Corfforaethol; Aelodau Arweiniol; Aelodau Pwyllgorau Craffu a'n harchwilwyr allanol (Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru).

Yn ogystal â'r broses herio gwasanaethau, mae gan y cyngor fframwaith rheoli perfformiad cadarn, sy'n cynnwys cyflwyno adroddiadau perfformiad rheolaidd i'r Tîm Gweithredol Corfforaethol, Uwch Dîm Arweinyddiaeth; Craffu; a'r Cabinet, a chyflwyno adroddiadau amrywiol i'r pwyllgor craffu ar faterion gwasanaeth arbennig, megis Digartrefedd, Contractau a Chomisiynu a Chanmoliaeth a Chwynion.

# Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2021 - 2022

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau allweddol

### Rhestr termau

Siarter Gofalwyr

Cynhyrchwyd y siarter ar y cyd â gofalwyr sy'n oedolion a gofalwyr ifanc a Grŵp Strategaeth Gofalwyr Sir Ddinbych i sicrhau bod gofalwyr yn derbyn y ddealltwriaeth a'r gefnogaeth orau bosibl. Gweler y manylion ar wefan CSDd.

Llyw-wyr Cymunedol

Gweithio ochr yn ochr ag Un Pwynt Mynediad yr awdurdod lleol a chynnal asesiad Beth sy'n Bwysig i benderfynu pa gymorth gallant ei ddarparu a/neu eich cyfeirio at gefnogaeth briodol yn y gymuned. Gweler y manylion ar adnodd DEWIS Cymru.

Timau Adnoddau Cymunedol

Cynnig dull mwy cyfannol i ofal cymdeithasol ac iechyd yn y gymuned gyda staff iechyd (gan gynnwys nyrsys cymunedol, ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol a thimau iechyd meddwl pobl hŷn) a staff gwasanaethau cymdeithasol (gan gynnwys gweithwyr cymdeithasol, therapyddion galwedigaethol ac ymarferwyr gofal cymdeithasol) gyda'i gilydd. Mae naw tîm yn gweithio ar y cyd yn Sir Ddinbych a Chonwy i ganolbwyntio ar gydweithio gwell er mwyn darparu gofal sy'n nes at adref, a chynnig darpariaeth well i'r boblogaeth a rhagor o ffocws a buddsoddiad ar atal ac ymyrraeth gynnar. Gweler y manylion yn Llais y Sir.

Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych

Y nod yw cefnogi, galluogi a datblygu Trydydd Sector cynaliadwy yn Sir Ddinbych. Maent yn cefnogi sefydliadau i ddarparu eu gwasanaethau mewn modd effeithiol a chynaliadwy drwy ddarparu cyrsiau hyfforddiant, cyngor a gwybodaeth ariannol fforddiadwy, a chefnogi gwirfoddolwyr i'w galluogi i gymryd mwy o ran yn eu cymunedau. Gweler y manylion ar adnodd DEWIS Cymru.

# Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2021 - 2022

Tîm Ar Ymyl Gofal - Oedolion

Mae'r tîm Ar Ymyl Gofal wedi'u lleoli o fewn Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Oedolion, ac yn recriwtio, hyfforddi a lleoli Gwirfoddolwyr. Mae'r Tîm wedi dangos sut gall y prosiect gael effaith gadarnhaol ar y llwybrau gofal cynlluniedig, drwy helpu i ryddhau dinasyddion o'r ysbyty gan weithio'n agos gyda'n Timau Adnoddau Cymunedol i ddarparu dull 'tîm o amgylch yr unigolyn' a lleihau'r galw am ofal traddodiadol cynlluniedig.

Gwasanaeth Ar Ymyl Gofal - Plant

Cefnogaeth i deuluoedd diamddiffyn y mae eu plant mewn perygl o fod angen derbyn gofal gan yr awdurdod lleol. Mae manylion ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru .

Tai Gofal Ychwanegol

Darparu cydbwysedd rhwng byw gartref a chael gofal arbennig ar y safle lle bo angen. Mae tenantiaid yn byw mewn eiddo hunangynhwysol yn hytrach na chartref preswyl, ac mae ganddynt ddrws ffrynt eu hunain. Mae hyn yn helpu pobl i gynnal eu hannibyniaeth. Gweler y manylion ar wefan CSDd.

Iaith Gwaith

Helpu siaradwyr a dysgwyr Cymraeg i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd gwaith a rhannu adnoddau. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar wefan Busnes Cymru.

Trefniadau Diogelu Rhyddid

Bwriedir i'r Trefniadau Diogelu Rhyddid ddod i rym ym mis Ebrill 2022, byddant yn diogelu pobl 16 oed a hŷn sy'n cael eu hamddifadu o'u rhyddid neu y mae angen iddynt gael eu hamddifadu o'u rhyddid er mwyn galluogi eu gofal neu driniaeth ac sydd â diffyg gallu meddyliol i gydsynio i'w trefniadau. Mae pobl sydd o bosibl ag awdurdodiad Trefniadau Amddiffyn Rhyddid yn cynnwys y rheiny â dementia, awtistiaeth, ac anableddau dysgu sydd â diffyg gallu perthnasol. Gweler y manylion ar wefan y Llywodraeth.

Ap Mind Of My Own

Ap ffôn symudol sy'n ei gwneud yn haws i blant a phobl ifanc siarad â'u gweithwyr cymdeithasol ac ymarferwyr eraill a sicrhau bod eu llais yn cael eu clywed. Gellir cael rhagor o fanylion ar eu gwefan .

# Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2021 - 2022

Symud Gydag Urddas

Ers 2019, mae Therapydd Galwedigaethol wedi bod yn gweithio ar y prosiect hwn o fewn y Tîm Adolygu, gan fwrw ymlaen â chynlluniau ymarferol i weithredu newidiadau i'r ffyrdd y mae preswylwyr Sir Ddinbych yn cael eu hasesu ar gyfer ac yn derbyn cefnogaeth symud a chodi. Mae hi wedi bod yn canolbwyntio ar ddeall y broblem, ymchwilio i arfer orau, a nodi ffyrdd o ddarparu hyfforddiant effeithiol ac ymgysylltu â'r grwpiau staffio cywir (gan gynnwys yr awdurdodau lleol, cydweithwyr iechyd a gwasanaethau darparwyr). Fe allai hyn helpu i gyflymu'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty ac fe allai gael effaith gadarnhaol ar les a synnwyr o reolaeth dinasyddion a'u gofalwyr, gan gynyddu gwytnwch ac ymgysylltiad.

Gwasanaeth Gwybodaeth Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru (NEWCIS)

Mae NEWCIS yn darparu gwybodaeth, cefnogaeth unigol, hyfforddiant a chwnsela i ofalwyr di-dâl sy'n byw yng Ngogledd Ddwyrain Cymru. Gweler y manylion ar adnodd DEWIS Cymru.

Prosiect Trawsnewid Rhanbarthol

Mae galw digynsail ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol Gogledd Cymru. Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal yn cynyddu, mae rhagor o bobl yn mynd i'r ysbyty ac yn defnyddio ein gwasanaethau gofal cartref, mae iechyd meddwl pobl yn y rhanbarth yn dirywio, ac mae pobl ag anableddau dysgu'n byw'n hirach a gydag anghenion corfforol a seicolegol cymhleth. Mae pryderon difrifol am lefel y galw a ph'un a ellir cynnal y system bresennol mewn cyfnod o doriadau difrifol i gyllidebau a lleihad mewn adnoddau. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid tymor byr i Awdurdodau Lleol a'r Bwrdd Iechyd i weithio gydag ystod o bartneriaid i drawsnewid y ffordd y mae cefnogaeth gofal cymdeithasol ac iechyd yn cael ei darparu. Gellir dod o hyd i fanylion ar wefan Cydweithredfa Gwella Gofal Cymdeithasol a Llesiant Gogledd Cymru.

Un Pwynt Mynediad

Mae'r tîm yn cynnwys staff profiadol o'r sectorau iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector, sy'n gallu darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth yn ymwneud â'r gwasanaethau sydd ar gael. Mae Un Pwynt Mynediad yn 'ddrws ffrynt i wasanaethau' i sicrhau eich bod yn derbyn y gofal cywir, yn y man cywir gan y bobl sydd â'r sgiliau cywir ar yr amser cywir - y tro cyntaf! Gweler y manylion ar  wefan CSDd.

# Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2021 - 2022

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 ac Arolygiadau o Hyfforddiant Deddf Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwella lles pobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen cymorth, ac ar gyfer trawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r Arolygiadau o Hyfforddiant Deddf Gofal Cymdeithasol yn gwella trefniadau diogelu ar gyfer y rhai sydd ei angen, ac yn sefydlu system reoliadol sy'n unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ac yn creu system reoliadol sy'n canolbwyntio ar y bobl sydd angen gofal a chefnogaeth, a'r gweithlu gofal cymdeithasol. Mae'r Ddeddf yn darparu'r fframwaith statudol ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru.

